

(FOLK SONG)

21 - 1998



**CYMDEITHAS
ALAWON GWERIN
CYMRU**

**THE WELSH
FOLK-SONG
SOCIETY**

Dyblygion



178221



9832PA1105

CANU GWERIN

(Folk Song)


ISSN 0967-0599

21/1998

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

CYNNWYS

Y baledi a damweiniau glofaol <i>Tegwyn Jones</i>	3
Awdur "Cob Malltraeth" <i>Tomos Roberts</i>	22
'O na bai fy mhen yn feipen....' <i>Rhiannon Ifans</i>	25
Rhagor am ddwy alaw <i>Huw Williams</i>	35
Y Tywysog	39
'Hosanna' a'i chysylltiadau <i>Rhidian Griffiths</i>	41
Teyrngedau: Shân Emlyn (<i>Meredydd Evans</i>)	45
Y Fonesig Enid Parry (<i>Huw Williams</i>)	50
Jacob Morgan (<i>Hywel Teifi Edwards</i>)	52
Mynegai i Gyfrolau 11-20	53



Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygyddion na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editors or the Society.

Golygyddion:	Rhidian Griffiths, Rhiannon Ifans
Cysodi:	Gair am Air, Porthmadog
Argraffu:	Argraffdy Arfon, Penygroes

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol:	£6.00
(Individual membership)	

Aelodaeth deuluol:	£8.00
(Family membership)	

Aelodaeth myfyrwyr:	£2.00
(Student membership)	

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths,
Coed y Berllan,
Ffordd Bryn-y-Môr,
Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2HX
Ffôn: (01970) 610160

Llun y clawr: Cerdyn ffolant o ganol y 19eg ganrif
(*Trwy ganiatâd Amgueddfa Werin Cymru*)

Y BALEDI A DAMWEINIAU GLOFAOL

Tegwyn Jones



Y mae ar gael yn y casgliadau cyhoeddus o faledi neu gerddi taflennol y ddeunawfed ganrif a'r ganrif ddiwethaf, o leiaf 139 o gerddi sy'n sôn am ddamweiniau mewn pyllau glo yn Ne a Gogledd Cymru. O edrych rhestri o ddamweiniau glofaol y ganrif ddiwethaf - a byddai papurau newydd fel y *South Wales Daily News* a'r *Western Mail* yn dueddol o gyhoeddi rhestri felly fel rhyw fath o atodiad i'w hadroddiad am ddamwain arbennig - a chymharu'r rheini â'r baledi am ddamweiniau, sydd wedi goroesi, mae'n amlwg mai ychydig iawn o ddamweiniau difrifol o leiaf a ddigwyddodd heb fod baled neu faledi wedi'u canu ar yr achlysur. Nid amhosibl bod eraill yn llechu mewn casgliadau preifat neu yng nghefn hen gyfrolau 'Amryw' yn rhywle, a fyddai'n llanw'r bylchau hynny hefyd.

Ymestynna cyfnod y dosbarth arbennig hwn o faledi o ganol y ddeunawfed ganrif, pan gofnodwyd ar gerdd yn 1758, farwolaeth dau ar bymtheg o ddynion a bechgyn yng Ngwaith Glo'r Wern-fraith, ym mhlwyf Llangatwg ger Castell-nedd, hyd at 1913, pan ganwyd mwy nag un faled am drychineb enbyd Pwll yr Universal yn Senghennydd, pan laddwyd 439 o ddynion. Nid oes, hyd y gwyddys, faled Gymraeg gyfoes am drychineb Gresford ym mis Medi 1934, er bod un Saesneg bur adnabyddus ar gael.

Nid yw bodolaeth 139 o faledi'n golygu ein bod yn sôn am 139 o ddamweiniau. Byddai'r un ddamwain weithiau'n destun nifer o faledi, fel yn achos y ffrwydrad a ddigwyddodd yng Ngwaith Glo Rhisga yn sir Fynwy ar Ragfyr 1, 1860. Ceir saith baled wahanol yn cofnodi'r digwyddiad trist hwnnw, a hawliodd 142 o fywydau. Bu'r baledwyr, y beirdd gwlad a'r rhigymwyr lleol yn ddiwyd iawn felly, yn rhoi ar gof a chadw'r ymweliadau brawychus hyn â llawer cymuned yn yr ardaloedd diwydiannol yn ystod y

ddwy ganrif nesaf atom, a dechrau'r ganrif bresennol. Yn wir gellir honni mai â damweiniau a thrychinebau o'r fath y mae a wnelo'r rhan fwyaf o ddigon o faledi sy'n cyffwrdd â'r diwydiant glo, a fu mor allweddol i hanes De Cymru'n enwedig, hyd ein dyddiau ni. Ac nid rhyfedd hynny pan gofir bod y damweiniau hyn weithiau'n gallu dileu cannoedd o fywydau mewn un gymuned, gan amddifadu'r gymuned honno ar amrantiad o'r rhan fwyaf o'i dynion a'i bechgyn ieuainc. Yn eu llyfr *Great Pit Disasters*, dywed Helen a Baron Duckham fod y raddfa farwolaeth bob amser yn uwch - yn aml yn sylweddol uwch - yn Ne Cymru nag ym meysydd glo eraill Prydain. Un rheswm am hynny, meddir, oedd y ffaith fod y glöwr Cymreig yn gorfod trin gwythiennau glo a oedd, am resymau daearegol, yn cynnwys mwy na'r cyffredin o bocedi o nwy methan, sef nwy hylsg a gâi ei ryddhau - yn helaeth weithiau - yn ystod y proses o gloddio'r glo, ac a oedd yn dueddol iawn i ffrwydro wrth ymgymysgu â hyn a hyn o awyr. 'Firedamp', neu'r 'damp' oedd enw'r glowyr arno. Roedd achosion eraill i gyfrif am ddamweiniau a marwolaethau o dan ddaear yn y meysydd glo - dŵr yn torri i mewn o hen waith cyfagos, y to'n cwmpo, y tsiaen weithiau'n torri pan fyddai'r caets yn llawn o ddynion ar eu ffordd i lawr i waelod y pwll neu ar eu ffordd i fyny, ac yn hyrddio degau i'w tranc. Ond y 'damp' heb unrhyw amheuaeth oedd y medelwr mawr ym mhyllau glo'r De:

Gwas i angau'r gelyn creulon
Ydyw'r Damp i ddifa dynion

meddai un baledwr, ac y mae'n air y deuir ar ei draws yn gyson yn y dosbarth arbennig hwn o faledi. Yn ôl set o ffigyrau sydd ar gael am y blynyddoedd rhwng 1874 a 1914, lladdwyd 2578 o lowyr yn Ne Cymru drwy ffrwydradau'n unig, ac yn sicr nid llai brawychus fyddai'r cyfanswm o ddechrau'r ganrif, dyweder, hyd at 1874, petai'r ystadegyn hwnnw ar gael. 'Pan ychwanegir at yr ystadegau enbyd hyn', meddai Hywel Teifi Edwards yn ei gyfrol *Arwr Glew Erwau'r Glo*, 'niferoedd y rhai a ddioddefodd niweidiau drwg y mae'n anodd peidio â gweld maes glo'r De ond yn nhermau maes rhyfel gwaedlyd'.

Gair am awduron y cerddi a'r baledi hyn. Syrthiant yn fras i ddau ddosbarth. Mae'r rhan fwyaf o'r enwau mawr ym myd y faled yn ystod y ganrif ddiwethaf rywbryd neu'i gilydd, fel y gellid disgwyl, wedi canu am ddamwain lofaol. Roedd iddynt farchnad arbennig o dda, fel yr awgrymir gan amler y rhai a oroesodd. Richard Williams (Dic Dywyll), Ywain Meirion, Levi Gibbon, J. W. Jones, Nant-y-glo, Dafydd Jones, Llanybydder, Evan Griffith (Ieuan o Eifion), Edward Jones, Hugh Roberts (Pererin Môn), Abel Jones (Bardd Crwst) - cyfrannodd pob un ohonynt yn ei dro at y dosbarth hwn o faledi. Canodd Abel Jones am dair damwain a

ddigwyddodd ym maes glo'r Gogledd, dwy yn yr un pwll, sef Pen-dwll, neu Pendwll, ger Brymbo, yn 1856 a 1889, a'r llall yng Ngwaith Brynawen ger Rhosllannerchrugog yn 1855. Canodd hefyd am y danchwa fawr a ddigwyddodd yn Aber-carn, sir Fynwy ym Medi 1878, pan laddwyd 258 o lowyr, ac am ddamwain erchyll arall ym Mhwll yr Albion, Cilfynydd, ym Mehefin 1894, pan laddwyd eto dros ddau gant a hanner o lowyr. Cesglir mai baledi i'w canu a'u gwerthu yn y Gogledd fyddai'r rhain yn bennaf, oherwydd nid oes dystiolaeth fod cylch clera Abel yn ymestyn i'r De o gwbl - sy'n cadarnhau efallai - os oes eisiau cadarnhad ar rywbeth mor amlwg - mai dilyn eu dull arferol o ennill eu bara beunyddiol a wnâi'r baledwyr 'proffesiynol' hyn. Canent a gwerthent y stori lle bynnag y digwyddent fod ar eu teithiau, ac er mai enwau argraffwyr Merthyr, Aberdâr ac Abertawe sydd i'w gweld amlaf ar daflenni'r baledwyr adnabyddus hyn pan ganant am ddamweiniau glofaol yn y De (hynny yw, lle ceir argraffnod o gwbl), mae enghreifftiau hefyd o argraffu baledi o'r fath ymhell o'r maes glo. Ceir bod dwy o faledi Ywain Meirion am ddamweiniau glofaol wedi eu hargraffu y naill yn Llanidloes a'r llall yn Aberystwyth, lle digwyddai fod o bosibl pan oedd wrthi'n llunio'r faled dan sylw, neu lle daeth ei gyflenwad ohoni i ben ac yntau am gael rhagor o gopïau cyn mynd rhagddo ar ei daith. Canu, gwerthu, a phocedu unrhyw elw oedd eu hanes hwy.

Ond ochr yn ochr â'r enwau adnabyddus yr oedd digon o awduron eraill mwy di-sôn-amdanynt. Prydyddion mwy lleol oedd y rhain, yn canu am ddigwyddiad yn y gymuned y perthynent hwy iddi. Prydyddion megis John Gittins, Adwy'r Clawdd, a gofnododd ar gân y ddamwain a fu ger Wrecsam yn 1819, a Gwilym Bychan o Ben-twyn, Castell-nedd, a ganodd gerdd, a gyhoeddwyd ar ffurf taflen, am ddamwain ym Mhwll Bryn-coch, Castell-nedd yn Ebrill 1859, pan foddwyd 26 o lowyr gan ddŵr a dorrodd i mewn i'r lle gweithient. Enw braidd yn annisgwyl sydd gan awdur cerdd am ddamwain debyg ger Pontyberem yn 1852, pan foddwyd (eto) 26 o ddynion. Bardd gwlad, rhigymwr lleol yn ddiamau oedd Archibald Skym, a ychwanegodd 'Dyffryn' - enw ei gartref yn yr ardal mae'n debyg - ar ôl ei enw ar y daflen:

Mi dreia roi i chi hanes

meddai ar ddechrau'i gerdd

Yn gymwys fel y clywes,

a dim ond prydydd lleol, does bosib, a âi i'r drafferth o enwi yn ei gerdd bob un o'r 26 a laddwyd, a hynny mewn llinellau megis, 'Roedd John mab

David Harry Ion / A'i frawd bach Davi, / Oedd gynne'n gwenu / Ond nawr yn tewi'. Naws lleol sydd i'w deimlo hefyd yng nghân William Jones, Cerrigllwydion, am golli 12 o ddynion ym mis Mai 1852 pan ffrwydrodd y damp mewn pwll yng Nghwmafan. Mae yntau hefyd yn eu rhestru wrth eu henwau, ac yn cynnwys enw cartref ambell un, 'Yn eu plith roedd Wallter Morgan, / Hopkin William Tylefedwan' - dynion a adwaenai'n dda, mae'n debyg.

Weithiau - fel yn achos y William Jones hwn - un o'r glowyr eu hunain fyddai'r bardd. Wedi manylu ar y ddamwain a disgrifio'r hyn a ddigwyddodd, dywed hyn:

Nid dychymyg wyf yn draethu,
Ond gwirionedd gallaf brofi,
Yr hyn a welodd fy nau lygad,
Er mor chwerw oedd i'r teimlad.

Es yn araf, braidd o'm hanfodd,
Lawr i'r pwll, rwyn dweud ar gyho'dd...

Glowyr eraill, cyd-weithwyr yr anffodusion a oedd wedi eu lladd neu eu hanafu, ac nad oedd yn gweithio ar y *shift* arbennig honno, neu lowyr o waith neu weithfeydd cyfagos a fyddai wedi rhuthro draw ar ôl clywed am y danchwa - hwy fyddai'r cyntaf i ddisgyn i'r pwll i chwilio am unrhyw un a oedd yn fyw ar ôl y ffrwydrad, ac i helpu gyda'r gwaith torcalonnus o ddod â'r cyrff i'r wyneb. A rhwng cromfachau megis, mae'n amlwg yn ôl y baledi damweiniau hyn, ei bod yn arfer ymhlith y glowyr i roi'r gorau i'w gwaith mewn unrhyw bwl cyfagos pan ddigwyddai damwain, a dod yno ar unwaith i gynnig eu help. 'Ataliwyd yr holl weithiau', meddai Evan Griffith (Ieuan o Eifion) wrth ganu am ddamwain fawr Rhisga 1860:

Ataliwyd yr holl weithiau trwy'r cym'dogaethau hyn,
A phawb a aeth i Risca yn union y pryd hyn.

Gwaith peryglus iawn oedd disgyn i bwl yn syth ar ôl y ffrwydrad, oherwydd byddai nwyon gwenwynig a marwol yn cyniwa'r o gwmpas, a byddai'r sawl a fentrai wneud hynny wrth gwrs yn amddifad o offer anadlu fel y gwyddys am bethau o'r fath heddiw. Ceir cyfeiriadau mewn mwy nag un faled at golli bywydau fel hyn yn sgil y ddamwain ei hun. Un a fentrodd, felly, oedd y William Jones, uchod:

Es yn araf, braidd o'm hanfodd
Lawr i'r pwll...

Mae'n deg casglu mai un o lowyr Cwmafan oedd William Jones, ac mai glowyr o bosibl oedd sawl un arall o'r prydyddion llai adnabyddus hyn sydd â'u henwau wrth gerddi tebyg, a bod yr un peth yn wir o bosibl hefyd am y llu o faledi tebyg nad oes enwau wrthynt o gwbl. Dyma rai llinellau o faled gan awdur anhysbys, a oedd mae'n amlwg yn lowr ei hun, ac sy'n rhoi tystiolaeth llygad-dyst o'r hyn a welodd. Y trychineb a ddigwyddodd yn Rhisga yn 1860, y cyfeiriwyd ato eisoes, yw'r cefndir, pan laddwyd 142 o ddynion, ac meddai'r awdur:

Wedi gweithio y Dydd Gwener
A nos Wener yn y gwaith,
Es i fyny yn y bore
'Ddeutu chwech o'r gloch neu saith.

Ond rhwng naw a deg mi glywais
Lais yn gweiddi ma's yn wan,
'O! hi daniodd yn y 'Black Vein',
Trwm a rhyfedd yw ein rhan',
Brysio wnes yn ôl yn union
Ac i lawr i blith y llu
O'r marwolion oedd yn gorwedd
Yma dan y ddaear ddu.

Naw a deugain yma welais
Yn cydorwedd ar y llawr,
Wedi eu casglu yn un pentwr,
Onid oedd yn syndod mawr?

Ochr yn ochr â'r baledwyr 'proffesiynol' felly, a gâi ddeunydd baledi yn y digwyddiadau trist hyn, i'w canu a'u gwerthu at eu cynhaliath eu hunain, yr oedd eraill hefyd, a chanddynt wybodaeth o lygad y ffynnon, yn cofnodi eu profiadau ar gân, ac yn eu cyhoeddi ar daflenni. Beth oedd yn digwydd i'r ychydig elw a ddôl o werthiant y rheini? Mae Roy Palmer, a ysgrifennodd yn helaeth am faledi a'u cefndir cymdeithasol yn Lloegr, yn un o'i lyfrau, *The Sound of History*, yn dweud fel hyn wrth sôn am faledi yn ymwneud â damweiniau glofaol yn Lloegr:

Major loss of life in the pits inspired sheet after sheet. These were often without imprint, and were probably run off by jobbing printers for sale by the colliers who wished to raise money for the families of their dead comrades.

'Probably' yw ei air, ond dyna'n sicr beth a ddigwyddai - ar dro beth bynnag - yng Nghymru. Mae'r *South Wales Daily News*, wrth adrodd am ddamwain fawr Aber-carn ym Medi 1878 yn cyfeirio at un Edward Morgan:

a local poet has been exercising his genius in composing lines in memoriam...He has versified the entire disaster, and in pointed rhythm has dwelt upon the serious destitution that must inevitably follow, if aid from the benevolent and wealthy is not speedily rendered. The poem is in the hands of the printer, and will be sold for the benefit of the sufferers, as well as the widows and orphans of the killed.

Mae'n amlwg mai sôn am gerdd daflennol, am faled, y mae'r gohebydd yma. Hyd y gwyddys, ni oroesodd cymaint ag un copi ohoni, a byddai'n ddiddorol gwybod a fu Edward Morgan, neu rywun ar ei ran efallai, ar ôl cael cyflenwad ohoni gan yr argraffydd, yn ei chanu ar y stryd yn Aber-carn, ac yn yr ardaloedd o gwmpas.

Un gair - cyn gadael yr awduron - am awdur y gynharaf o'r baledi hyn sy'n sôn am ddamweiniau glofaol, sef damwain y Wern-fraith, 1758. Ben Simon, Abergwili, oedd hwn, copiwr llawysgrifau o bwys, ac awdur marwnad i Riffith Jones, Llanddowror, ymhlith pethau eraill. Ni thrigai yn yr ardal lle digwyddodd y ddamwain, ac yn ddiddorol ddigon dywed yn y faled sut yr aeth ati i gasglu'r wybodaeth a'r manylion yr oedd eu hangen arno. Yn union fel gohebydd papur newydd aeth i gyfweld landlord y Bull, Castell-nedd, a oedd wedi colli brawd yn y ddamwain:

Dymma'r Hanes fel y cefais,
Pan y Cenais hyn ar goedd,
Oddiwrth Forgan Harri gwiwan,
A fu'n datgan fel yr oedd,
Yn Llun y Tarw or Hewl Newydd,
Yngwych gaerydd Castell Nedd,
Brawd i'r cynta Enwais yma,
Lle roedd Cychfa rhai Sy'w Bedd.

Hon oedd tafarn leol nifer o'r rhai a laddwyd. Byddai rhai awduron, fel y dywedwyd, yn cael eu deunydd yn y man a'r lle, rhai ohonynt yn llygad-dystion o'r hyn a ddisgrifid ganddynt, ond beth am Ywain Meirion, Dic Dywyll, Levi Gibbon a'r lleill? A fyddent weithiau, tybed, yn defnyddio'r

un dull â Ben Simon i gasglu deunydd ar gyfer eu baledi?

Ond beth bynnag am hynny, ceir arwyddion bod y baledi/cerddi hyn yn cael eu llunio'n bur fuan ar ôl y digwyddiad ei hun, a'u bod ar werth yn ardal y ddamwain a'i chyffiniau yn aml cyn bod y darlun cyflawn o'r hyn a ddigwyddodd yn glir. Cofnododd un awdur dienw yn nheith ei faled, wrth ganu am ddamwain ym Mlaenllechau ger Pontypridd ym Mehefin 1869, fod 'uwchlaw 60 o Golliers' wedi'u lladd, ond ar dudalen blaen y daflen, 44 o enwau yn unig a restrir. Y cyfrif swyddogol terfynol, fel y dangoswyd yn ddiweddarach, oedd 53. Dal i amcangyfrif felly oedd swyddogion y gwaith pan ddaeth y faled hon o'r wasg. Ceir awdur dienw arall yn cyhoeddi o dan deitl ei faled am danchwa Tylorstown, heb fod ymhell o Flaenllechau, yn 1896 fod 'Degau wedi eu lladd', sy'n awgrymu ei bod hithau hefyd wedi ei hysgrifennu cyn bod gwybodaeth fanylach ar gael. Daeth y wybodaeth honno'n fuan wedyn, a cheir dau argraffiad arall ohoni yn dilyn ar sodlau'i gilydd, sydd i bob ymddangosiad yn union yr un fath, ond bod y geiriau 'Degau wedi eu lladd' wedi eu newid i '55 wedi eu lladd' yn un argraffiad ac i '57 wedi eu lladd' yn yr argraffiad terfynol, sef y cyfrif swyddogol. Mewn baled gan awdur dienw arall eto, am danchwa ym Mhwl Pen-y-graig, Cwm Rhondda, 1880, digwydd y llinell 'Fe ddaeth pedwar byw i fyny', ond gosodwyd seren gyferbyn â'r llinell, ac ar waelod y tudalen ceir y geiriau '5 byw i fyny' sef ychwanegiad a wnaed gan Jones & Co., Argraffwyr, Troed-y rhiw, yn eu hail argraffiad o'r faled. Yn y saith faled am ddamwain Rhisga yn 1860 mae'r nifer o lowyr a laddwyd yn amrywio ynddynt rhwng 138 a 240, sy'n adlewyrchu'r ansicrwydd mawr a fodolai ar ôl damwain o'r fath. 142 oedd y ffigwr terfynol mewn gwirionedd. Perthyn iddynt ryw uniongyrchedd amseryddol felly, a hwyrach bod hanesyn a gadwyd ymhlith papurau D. Rhys Phillips, awdur *The History of the Vale of Neath*, o ddiddordeb yn y cyswllt hwn.

Dywed Rhys Phillips iddo ym mis Hydref 1891, ac yntau'n cerdded un o heolydd Cwm Nedd, ddod wyneb yn wyneb â gŵr 'beyond middle age', yn llafarganu'r rhigwm:

Eli, eli, eli Treffynnon,
Welliff pob clefyd ond clefyd y galon,

a chael ar ôl holi mai Hugh Roberts y baledwr - Pererin Môn - oedd hwn, awdur baledi am nifer o ddamweiniau diwydiannol yn y De. Yn ystod y sgwrs a fu rhyngddynt, dywedodd y Pererin mai yng Nghastell-nedd y digwyddai fod un tro pan glywodd am ddamwain yng ngwaith glo'r Garnant yng Nghwm Aman (Ionawr 1884 fyddai hynny - tsiaen y caets yn torri a 10

o lowyr yn cael eu hyrddio i'r gwaelod ac i'w marwolaeth), ac er ei fod yn wlyb at ei groen y noson honno ar ôl diwrnod o ganu a gwerthu baledi yn yr awyr agored - a mis Ionawr oedd hi - aeth ati ar unwaith wrth olau kannwyll ddimai i lunio baled am y digwyddiad, gan ddefnyddio'r ychydig wybodaeth a gawsai amdano, a chan fwriadu mynd â hi'n blygeiniol drannoeth i'w hargraffu at Ebenezer Rees, yr argraffydd o Ystalyfera. Ond ar ei ffordd yno, clywodd fod Ebenezer Rees ei hun, a bardd lleol arall, Isaac o'r Felin, plwyf Llangiwig, ill dau wedi cyfansoddi cerddi am yr un digwyddiad, ac yn wyneb y fath gystadleuaeth, penderfynodd chwilio am argraffydd arall. Aeth ef a'i wraig, a fyddai'n teithio gydag ef, ac yn gwerthu ei faledi ar ei ran, drwy Flaendulais i Aberdâr, a chael argraffu ei faled yno yng ngwasg Lloyd a'i Fab, a'r noson honno, er bod y Pererin yn ganwr o fath ei hun, canwyd y faled newydd ar sgwâr Aberdâr gan ddau löwr, Twm Job a Thwm Hwmffre, y ddau'n meddu ar leisiau cyfoethog, a llwyddodd y baledwr a'i wraig - yn ôl ei dystiolaeth ei hun yng nghlyw D. Rhys Phillips - werthu dwy fil o gopiâu cyn noswyllo. Un copi'n unig ohoni a oroesodd mewn casgliad cyhoeddus, neu'n gywirach efallai, un enghraifft ohoni, a hynny yng nghasgliad y Llyfrgell Genedlaethol. Nid oes enw argraffydd wrthi, sy'n awgrymu naill ai bod Lloyd a'i Fab, Aberdâr, wedi hepgor eu hargraffnod wrth ei hargraffu, neu i'r Pererin gael cyflenwad pellach ohoni gan argraffydd arall.

Gyda chynifer o ddamweiniau'n digwydd, sawl un yn ystod yr un flwyddyn yn aml, yr oedd yn anorfod bod ambell un - er mwyn gwneud ceiniog ei hun efallai, neu i leddfu trallod rhyw weddw neu deulu arbennig - yn addasu baled a oedd eisoes yn bod ar gyfer y ddamwain ddiweddaraf. Un enghraifft o hyn yw'r faled sy'n dechrau â'r llinell 'O'r fath ochain sy'n mynychu'. Argraffwyd hon ar ôl pedair damwain o leiaf, sef Rhisga (1860) - dyna'i hymddangosiad cyntaf, yn ôl pob golwg, uwch y ffugenw 'Teithiwr' - yna'r ddamwain yng Ngwaith y Morfa, Aberafan, dair blynedd yn ddiweddarach yn 1863, yn ddiennw'r tro hwn, yna yn yr un flwyddyn, 1863, am ddamwain Gwaith Llynfi, Maesteg, ac eto ddwy flynedd yn ddiweddarach pan fu damwain ym Mhwll y Gethin, Aberdâr. Enw'r awdur erbyn hynny oedd Deio Bach. Canlyniad tanchwa oedd pob un o'r damweiniau hyn, ac felly nid oedd angen addasu mawr arni o gwbl, dim ond newid yr enwau lleoedd. Rhwydd iawn yr âi:

Mae tref Aberafan mewn galar,
Ni welwyd fath alar cyn hyn

yn:

Mae tref Merthyr Tydfil mewn galar,
Ni welwyd fath alar cyn hyn.

Roedd llinellau fel:

Yn y pwll y tân enynodd
Megis taran fawr yn wir

yn gwneud y tro am bob un o'r damweiniau, ac er bod y pennill canlynol:

O'r trueiniaid hyn fe godwyd
Llawer iawn trwy hyd y dydd,
At y lle daeth cannoedd lawer,
Ond pob un a'i fron yn brudd;
Mewn certwynau ar elorau
Trwy'r ardaloedd cludid hwy,
Gweld y fath olygfa athrist
Rhoddai i lawer ingol glwy,

wedi ei ganu unwaith am un achlysur arbennig, cymerai ei le'n esmwyth mewn baledi am achlysuron eraill tebyg. Nid oedd hyn yn demtasiwn i bawb. Canodd Edward Jones, Mon, am ddwy ddamwain yn 1844, y naill ym mis Ionawr a'r llall ym mis Chwefror, gan lunio dwy faled wahanol o ran mesur ac arddull, er mor hawdd y gallai fod wedi addasu'r gyntaf at yr ail ddigwyddiad, petai wedi dymuno gwneud hynny.

Mae patrwm, ymddangosiad a chynnwys y baledi sy'n ymwneud â damweiniau glofaol, at ei gilydd, yn hynod debyg. Anaml iawn, er enghraifft, y ceir llun neu doriad neu ddyfais o unrhyw fath yn addurno'r wynebdden. Un rheswm am brinder addurniadau o'r fath o bosibl yw fod cryn dipyn o fanylion i'w traethu gan amlaf cyn dechrau ar y faled - crynodeb eithaf manwl weithiau o hanes y digwyddiad, ac yn amlach na pheidio restr, arswydus o hir ar dro, o'r rhai a laddwyd, ynghyd â manylion am eu hoedran, statws priodasol, nifer eu plant, ac weithiau eu swyddi'n ogystal - halier, ostler, pwyswr, ac yn y blaen, gan ychwanegu rhyw ffaith ddramatig-drîst pan fyddai un felly ar gael:

James Jones, fireman, Old Furnace, a fu farw ym mreichiau John Howell, yr hwn oedd y dyn diweddar a ddaeth allan o'r lofa cyn y danchwa,

sef Glofa Bryn-coch, Castell-nedd, 1859. Byddai ambell faledwr yn chwannog i roi set o ystadegau brawychus ar y tudalen cyntaf. Abel Jones, er enghraifft, wrth ganu am ddamwain Aber-carn ym Medi 1878,

pan gollwyd 258 o fywydau, yn ychwanegu 'Yr oedd 135 o honynt yn wŷr priod, 68 yn ddibriad a 55 o fechgyn. Mewn canlyniad y mae 131 o wragedd gweddwon, 363 o blant amddifaid, 9 o famau oeddrannus, 17 o frodyr a chwiorydd - yn gwneud cyfanswm o 520!'

Yn y faled ei hun, os oedd stori drist o fewn stori drist i'w hadrodd, fe wneid hynny gydag arddeliad, a hynny'n aml mewn modd digon cignoeth. Un o'r 13 a laddwyd yng Ngwaith Glo rhyw Mr Brown gerllaw Nant-y-glo yn 1837 oedd gŵr ifanc o'r enw Hopkin Hopkins, ac yn ôl Dic Dywyll, a ganodd y faled, ar yr alaw 'Diniweidrwydd':

Roedd Hopkin Hopkins, medd yr hanes,
Dan bwynt priodas urddas hael,
Ond gorfu fynd, yn lle priodi,
I bydru yn y gwely gwael.

Yng Ngwaith y Dinas, Cymer, ger Pontypridd, ar ddydd Calan, 1844, collwyd 12 o fywydau, ac yn eu plith:

Thomas Rowland ga'dd ei symud
A'i ddau fab i'r trag'wyddolfyd,
Gadawodd ei gydmares gynnes
A phedwar plentyn, trwm yr hanes.

Naw oed oedd yr ieuengaf o'r ddau fab a gollwyd. Enwid ambell un yn y faled am ei fod yn ffigwr adnabyddus ac yn arweinydd yn y gymdeithas leol, fel Dafydd Gruffydd, a oedd yn un o'r 26 a foddwyd pan dorrodd y dŵr i mewn 'o'r Hen Waith i'r Gwaith Newydd' ym Mhwl Bryn-coch ger Castell-nedd ym mis Ebrill 1859:

Roedd yn eu plith bregethwr, oedd wir genhadwr hedd,
A'i enw Dafydd Gruffydd, gŵr beunydd hardd ei wedd,
Llafurwr dwys a gweithgar, digymar gyda'i gledd,
'Nôl colli hwn mae trydar yn Soar Castell-nedd.

Annisgwyl yw dewis yr awdur, Evan Griffith (Ieuan o Eifion), o'r gair 'trydar' yn y pennill uchod i gyfleu'r cyffro a'r braw ymhlith y gynulleidfa yn Soar, yn hytrach na'r gair llai arbennig 'galar', dyweder, a fyddai wedi cynnig ei hun iddo mae'n siwr, o dan yr amgylchiadau. Prin iawn yw enghreifftiau o'r fath yng ngwaith y baledwyr.

Tuedd gyffredin yn eu plith wrth ganu am ddamwain, oedd pwysleisio normalrwydd pethau *cyn* y digwyddiad. Awdur dienw sydd yma'n canu

am y ddamwain yng Nglofa Park Slip, Ton-du, Awst 1892, pan gollwyd
111 o ddynion a bechgyn:

Teg y gwawriodd bore Gwener, canai'r adar yn y co'd,
Nid oedd arwydd yn y wybren am yr ergyd oedd i ddod,
Gŵr y tŷ gusanai'n siriol dyner wraig a theulu llon
Wrth ymadael heb yn wybod mai'r gusan olaf ydoedd hon.

Ac y mae'r darlun o'r glöwr yn mynd at ei waith yn ysgafn galon, heb
wybod dim am yr hyn oedd yn ei aros, yn un a ailadroddir dro ar ôl tro mewn
gwahanol ffyrdd:

Bechgyn heini'n mynd fel arfer
Lawr i'r pwll heb ofni'r dyfnder,
Ond eu cyrff yn cael eu codi
'Mhen byr oriau wedi llosgi.

Cyffredin iawn yn naturiol yw'r disgrifiadau graffig o sŵn y ffrwydrad yn
diasbedain mor ddirybudd drwy'r gymdogaeth. 'Tuag un ar ddeg dydd
Gwener', meddai John Owen, y cyfeiriwyd ato eisoes, ydoedd pan daniodd y
damp mewn pwll yn ymyl Tredegar yn 1865 a lladd 26:

Tuag un ar ddeg dydd Gwener, trist gofio'r newydd trwm,
Fe glywyd twrf fel taran yn adsain trwy'r holl gwm.

Ac yn ddieithriad ym mhob un o'r baledi hyn mae sôn am y dyrfa fawr - o
wragedd gan mwyaf - yn ymgasglu ar ben y pwll, a'r golygfeydd ysgytwol o
drist o'r meirw a'r anafus yn cael eu dwyn i'r wyneb, a gwraig yn methu
adnabod ei gŵr oherwydd ei anafiadau a'i losgiadau, mam yn methu adnabod
ei mab.

Prin, fel yr awgrymwyd yn barod, yw'r cyffyrddiadau 'llenyddol'
sy'n tynnu sylw yn y cerddi yma, fel yn y baledi'n gyffredinol. Cyfeiriwyd
eisoes at ddefnydd Ieuan o Eifion o'r gair 'trydar'. Mae awdur arall, Ioan
Egwest, wrth ganu am un o'r amryw ddamweiniau a ddigwyddodd yn Rhisga
- Gorffennaf 1880 yn yr achos yma - ac wrth ddisgrifio effaith y damp yn
tanio, yn defnyddio'r gair 'aredig' yn effeithiol iawn:

Gweld y fflamiau'n fflachio'n llachar
Ac yn rhwygo creigiau certh,
Gweld y nwy'n aredig daear,
Sydd yn crynu gan ei nerth.

Disgrifiad ag iddo awgrym cryf o brofiad llygad-dyst.

Ceir mwy o ymdrech gan ambell faledwr i gyfleu sydynrwydd y digwyddiad a'r gwae a ddeilliai o hynny. Edward Jones, Mon, yn myfyrio fel hyn uwchben un o'r pedwar glöwr a gollwyd yng Ngwaith Bailis yng Nghendl, sir Fynwy tua chanol y ganrif:

Heddiw'n gawr, yfory'n gorwedd
Yn y ceufedd, lwydedd le,
Heddiw'n fyw, yfory'n farwol,
O anserntenol oes, on'd te?

Ac wrth gofnodi'r ddamwain ger Brymbo yn 1856, mae Abel Jones yn myfyrio ar hawl absoliwt y ddaear ar y glöwr:

Rôl bod am ddyddiau yn y ddaear,
Does neb yn cofio erioed fath alar,
Ar ôl cael eu cyrff i fyny,
Fe'u rhowd drachefn mewn daear oerddu.

Gwelodd awdur dienw'r faled a ganwyd am ddamwain Pen-y-graig, Cwm Rhondda, ym mis Rhagfyr 1880, ei gyfle i gyfeirio at y tymor arbennig o'r flwyddyn, a hynny'n bur effeithiol:

Bydd y Gwyliau hyn yn wyliau
Trist i lawer mam a gwraig,
Am fod yn y teulu olion
Anadl tanchwa Pen-y-graig.

Mewn baled am ddamwain arall yn yr un pwl bedair blynedd yn ddiweddarach, y ceir un o'r enghreifftiau cynharaf, os nad y cynharaf oll, o fersiwn Saesneg cyflawn o'r faled ochr yn ochr â'r fersiwn Cymraeg. Mae enghraifft o ddau bennill Saesneg yn ymddangos ar ddechrau baled Gymraeg yn digwydd mor gynnar â 1865, ac enghraifft o baragraff Saesneg o flaen baled Gymraeg mor gynnar â 1863, ond o 1884 ymlaen at ddiwedd y ganrif, eithriad yw cael baled am ddamwain lofaol heb fod iddi fersiwn Saesneg yn ogystal, hynny'n adlewyrchu'r newid a fu yn hanes y Gymraeg yn y De diwydiannol yn ystod y cyfnod dan sylw.

Beth yw tystiolaeth baledi'r dosbarth arbennig hwn am y sawl a'u canai ar y stryd ym Merthyr a Chastell-nedd ac ym marchnad Pontypridd? Adrodd yr hanes oedd eu prif bwrpas yn naturiol, a hynny yn y modd mwyaf

cyffrous a chynhyrfus ag y gellid, ond yn anorlod fe ddaw eu hagwedd i'r golwg. Mae digofaint o unrhyw fath, a hyd yn oed gwestiynu, yn sgil y digwyddiadau erchyll a ddarlunnir ganddynt, yn bethau prin iawn yn eu cerddi. Goddefol hollol ydynt. Yn syml, trefn Rhagluniaeth oedd y cyfan, a'u hanogaeth hwy i'w gwrandawyr a'u darllenwyr - a llawer o'r rheini'n sicr, wedi colli anwyliaid yn y ddamwain dan sylw neu mewn damwain arall - oedd derbyn y drefn yn wylaidd ac yn ostyngedig. 'Mae Rhod Rhagluniaeth fawr yn dod', meddai Archibald Skym o Gwm Gwendraeth yn 1852:

A rhai newyddion
Sy'n peri loesion
Nes rhwygo'r galon.
Ond dyna fel mae fod
Ym myd y gorthrynderau.

Meddai John Owen wedi damwain Tredegar, 1865:

Mae olwyn fawr Rhagluniaeth uwchlaw ein deall ni,
Trefn Duw yw pob digwyddiad, damweiniau aml ri.

Ac yr oedd i'r damweiniau hyn eu gwersi, a'r angenrheidrwydd o fod yn barod yn un o'r rhai pwysicaf oll:

Mae'r Ysgrythur yn cyhoeddi

meddai Levi Gibbon yn 1856,

Nac ymfrostia'r dydd yfory,
Am nad oes o'r byd yn gwybod
Beth a ddigwydd mewn diwrnod.

I'r glowyr hynny a lwyddodd i ddianc yn groeniach o'r ddamwain, yr oedd gwers arbennig. Mae J. W. Jones, Nant-y-glo, wrth ganu am ddamwain ym Maesteg yn 1863, er yn cyfaddef fod bywyd y glöwr yn un caled a pheryglus, eto y 'gwirionedd yw' mai yn 'anystyriol / Y mae llawer un yn byw'. Ond dyma gyfle, fel y dywed yr awdur dienw a gofnododd gyflafan Rhisga yn 1860 pan laddwyd 138 o ddynion, i bentewynion a achubwyd o'r tân i wella'u ffyrdd:

Dyma'r lle y gellir gweled
Yn dra amlwg ffafr Duw,

Llawer eraill ga'dd eu clwyfo,
Ond fe'u cadwyd hwy yn fyw,
Rwy'n gobeithio bydd hi'n fendith
I'r gymdogaeth fawr a mân,
Iddynt beidio byw'n afradlon
Ac annuwiol fel o'r bla'n.

Bydded iddynt gefnu hyd yn oed ar fân bleserau bywyd, yw anogaeth awdur a'i galwai ei hun yn 'Gwladgarwr', ar ôl damwain ger Troed-y-rhiw, Merthyr yn 1862:

Weithwyr annwyl, rhoddwch heibio
'R mygllys cas a'r ddiod gref,
Byddwch sobr - ymhyfrydwch
Beunydd oll yn ffyrdd y nef.

Am y gweddwon a'r amddifaid a adawyd ar ôl damwain - degau lawer ohonynt weithiau - nid oedd dim i'w wneud ond eu cyflwyno i ofal Duw, a'u hatgoffa am y wobr oedd yn eu haros yn y nef. Yng ngeiriau J. W. Jones, Nant-y-glo eto:

Nid oes yno boen na chroesau, na gofidiau o un rhyw,
Dim ond canu a chlodfori yng nghwmpeini'r Iesu gwiw,
Er bod yma yn yr anial mewn tywyllwch llawer awr,
Yn y nef y cawn oleuni; ein haul nid aiff byth yno i lawr.

Bydd ambell faledwr, fel Deio Bach yn 1865, ar ôl damwain ym Mhwll y Gethin, ger Merthyr, yn annog y rhai gwell eu byd arnynt yn y gymdeithas, gan gynnwys y meistri glo, i gyfrannu tuag at leddfu ychydig ar adfyd y rhai a adawyd ar ôl:

Boed i feistri a boneddwyr
Yr ardaloedd oll o'r bron
Gynorthwyo'r gweddwon druain
Sydd yn awr yn brudd eu bron,
Ymgeleddu'r plant yn dyner
Sydd yn awr heb ganddynt dad...

A'r un yw apêl awdur anhysbys yn 1871 ar ôl damwain Pwll y Pentre, Cwm Rhondda, at aelodau cyffredin y gymdeithas:

O Gymry! Gwrandewch ar eu cwynion
Os deuant rhyw ddydd at eich dôr,
Cyfrenwch i'r rhai mewn cyfyngder
Rhyw ran o gyflawnder eich stôr...

A thystiolaeth Abel Jones yn 1878 oedd mai dyna'n wir un o ganlyniadau damwain mewn gwaith glo, sef y gwelid plant yn cardota o ddrws i ddrws yn yr ardal yn fuan wedyn:

Yn erfyn am gael tamaid,
Yn grwydriaid bach tylawd,
O ddrws i ddrws cewch weled
Yn aml chwaer a brawd.

Yn naturiol, y mae yn y cerddi arbennig hyn gyfeiriadau mynych at berchenogion a rheolwyr y gweithfeydd lle digwyddai'r damweiniau. Mae'n amlwg mai'r ddefod ar adegau trist o'r fath, oedd eu canmol heb ystyried am eiliad y gallent fod yn gyfrifol i raddau helaeth iawn am yr hyn a ddigwyddodd. Ar ôl damwain, gwnaent ryw ymgais i leddfu ychydig ar drueni'r gweddwon a'r plant, a mawr oedd gwerthfawrogiad y baledwyr. 'Mi glywais am Gommittee' meddai Archibald Skym, unwaith eto wrth ganu am y ddamwain yn y Gwendraeth, 1852:

Gynhaliwyd yn Llanelli
Gan wŷr mawrion
I edrych i sefyllfa
'Rhaf ymddifadwyd yma,
Sef plant a gweddwon,
Rhows rhaf ugeiniau yn ddi-lai
O Soverigns melyn,
Rhowd aur fel cregyn,
Do, gannodd rhyngddyn,
Mae'n glod i'r boneddigion,
Boed iddynt i barhau.

Dim i awgrymu, petai'r boneddigion hyn wedi gwario rhaf o'u *soverigns* melyn ar sicrhau mwy o ddiogelwch yn y pwll, na fyddai'r ddamwain o bosibl wedi digwydd o gwbl. Yr unig gyfeiriad a welwyd yn y baledi hyn at unrhyw fath o ddarpariaeth diogelwch yn y diwydiant, yw'r pennill yma o faled Levi Gibbon am ddamwain y Cymer, Pontypridd, 1856, pan gollwyd

111 o fywydau, lle cyfeiria at yr arfer o anfon ‘gwylywyr’ i lawr i edrych y pwll cyn i’r glowyr eu hunain fynd at eu gwaith:

Tri o’r gwylywyr fel arferol
Ddarfu chwilio’r pwll yn fanol,
Er cael gweld a oedd peryglon
Yno i ddrygu’r glowyr mwynion,
Wedi iddynt ddod i fyny,
Hwy ddywedent peidiwch ofni,
Nid oes yn y pwll ddim niwed,
At eich gwaith chwi ellwch fyned.

Ond camarweiniol oedd eu sicrwydd, oherwydd bennill neu ddau yn ddiweddarach:

Roen nhwy’n methu cael elore
I gario cyrff oddi yno adre
Am fod cymaint o farwolion
Wedi dod i lan o’r eigion.

‘Mae’r meistri’n dyner galon /Yn sychu’r dagrau blin’, meddai un baledwr anhysbys ar ôl damwain ym Mlaenllechau, mis Mehefin 1869, pan gollwyd ‘uwchlaw 60 o golliers’, ac awdur anhysbys arall, ar ôl colli 101 o lowyr yn namwain Pen-y-graig, Cwm Rhondda, Rhagfyr 1880, yn werthfawrogol iawn o bresenoldeb rhai o’r meistri yn yr angladdau a ddilynodd:

Dangosai pawb trwy’r lle eu parch
At deulu’r truain rowd mewn arch,
Ac amryw fonedd tyner fron
A welwyd yn y dyrfa hon.

Ac yn ddiau adlewyrchu agwedd a theimlad y glowyr eu hunain a wnaent yn hyn o beth, oherwydd wedi’r cyfan yr oedd rheidrwydd ar y baledwr ganu yr hyn y dymunai ei gynulleidfa glywed os oedd am werthu ei faled, a dyna wedi’r cyfan oedd diben ei llunio yn y lle cyntaf. Yr oedd y parch a’r teyrngarwch yn bod. Dywedodd Hugh Roberts y baledwr wrth D. Rhys Philips ei fod, ar farwolaeth David Davis, perchennog gwaith glo Ferndale, wedi cyfansoddi baled i’w goffâu, ac wedi gwerthu dwy fil o gopïau ohoni i’r glowyr a oedd wedi eu rhyddhau o’u gwaith y diwrnod hwnnw i fynd i’r angladd. Ac y mae hyn yn anodd i’w esbonio (er mae’n siwr fod a wnelo

effaith crefydd anghydfurfiol lawer ag ef) pan gofiwn fod esgeulustod perchenogion gweithfeydd glo yn beth yr oedd pobl - y tu allan i'r baledi hyn - yn barod iawn i dynnu sylw ato. Mae A. L. Lloyd yn ei lyfr *Come All ye Bold Miners*, yn dyfynnu Frederick Engels yn dweud ym 1844:

The coal mine is the scene of a multitude of the most terrifying calamities, and these come directly from the selfishness of the bourgeoisie...If an explosion occurs, the recklessness of the miner is blamed, though the bourgeoisie might have made the explosion well-nigh impossible by supplying good ventilation.

Ac yn y llyfr y cyfeiriwyd ato ar y dechrau, *Great Pit Disasters*, mae'r awduron yn dyfynnu gohebydd yn y *Mining Journal* ddwy flynedd ar ôl sylwadau Engels, yn 1846, sy'n dweud yn blwmp ac yn blaen, os na ddigwyddai fwy o wario ar ddiogelwch, yn a:

South Wales would undoubtedly become a huge charnel house, before which Northumberland and Durham will sink into insignificance.

Ond bach iawn o sylw a wnaed o'r rhybudd, oherwydd yn Ne Cymru yn anad unlle arall, y digwyddodd y damweiniau glofaol mwyaf dinistriol yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Nid cyn blynyddoedd olaf y ganrif, a'r capeli'n dechrau llacio'u gafael, a'r awydd i gyfundrefnu ymhlith y glowyr yn cryfhau, y mae rhywun yn ymdeimlo â rhyw gydymdeimlad ag amgylchiadau'r glöwr yn y baledi, a rhyw osio at alw am fwy o degwch iddo. Hwyrach bod arwydd o'r newid hwn i'w ganfod mor gynnar â 1872, pan geir y pennill yma mewn baled o waith awdur anhysbys am ddamwain yn Nyffryn Llynfi yn Ionawr y flwyddyn honno - lladdasai'r danchwa 11 o lowyr a gadawodd lanast ofnadwy yn y pwll:

Trwm iawn oedd colledu'r meistri,
Roedd eu colled hwy yn fawr,
Mae'r colledion weithiau'n ddiau
Bron â'u llethu hwy i'r llawr,
Ond roedd colli y bywydau
'N llawer mwy na'u colled hwy,
'N ôl i'r meistri gael adferiad,
Teimla y perthnasau glwy.

Erbyn 1884 mae'r nodyn i'w glywed yn gliriach. Ym mis Ionawr y flwyddyn honno, canodd rhyw brydydd anhysbys eto, faled am ddamwain yn y Garnant, sy'n gorffen â'r pennill:

Nid yw'r mawrion yn cydnabod
Gwerth y glowr yn y byd,
Gŵr y mae olwynion masnach
Yn ddyledus iddo i gyd;
Mewn peryglon a chaledi
Bychan dâl roir am ei waith,
Ac nid oes ond beichiau trymion
Iddo'n gyson ar ei daith.

Baled, gyda llaw, a ddefnyddiwyd eto, ar ôl newid yr enwau lleoedd, pan fu damwain yng Nglofa'r Cwtsh, yn y Rhondda Fach ym 1887- i'w chanu ar 'Morgan Bach' yn yr achos yma, a'i defnyddio drachefn, ynghyd â'r newidiadau pwrpasol, ar ôl y ddamwain a hawliodd 111 o fywydau yn Abercynffig ym 1892, a'r awdur, neu'r gwerthwr, yn mynd i'r drafferth i roi marc cwestiwn mewn cromfachau ar ôl y gair 'mawrion' yn llinell gynta'r pennill olaf. Ac fe leisir teimladau tebyg mewn baledi eraill a luniwyd am ddamweiniau yn Abergwynfi, 1891, ac yn Tylorstown ym 1896.

Onid yn y ganrif bresennol y gwelwn, mewn baled, y dicter cyfiawn sydd mor absennol o gorff mawr y baledi damweiniau glofaol. Ar 14eg o Hydref 1913, ym Mhwl yr Universal, Senghennydd, digwyddodd y ddamwain waethaf erioed yn hanes y diwydiant glo ym Mhrydain, pan laddwyd 439 o lowyr. Er bod oes y prif faledwyr wedi hen fachludo erbyn hynny, denodd y ddamwain ddwy faled, un gan Evan Williams, Bangor, sy'n gwbl draddodiadol o ran cynnwys, a'r llall gan T. C. Benjamin, sy'n dra gwahanol, ac yn dangos cymaint o newid a ddigwyddodd:

Gormod yw rhoi cnawd ac esgyrn
Cyrrff y glowyr dewr ar dân
Er cyfodi cestyll cedym
I ormeswyr Cymru lân.

Esgeulusdod ydyw damwain,
Nis gall fod lle na bo cam...

Ac felly yn y blaen yn bur gignoeth.

Y mae'r corff hwn o faledi, y ceisiwyd taflu brasolwg drosto yn yr ysgrif hon, yn goffâd trist o'r cyfryw 'esgeulusdod' a'r 'cam' a achosodd gymaint o boen a galar yng Nghymru mewn cyfnod arbennig yn ein hanes.

AWDUR “COB MALLTRAETH”

Tomos Roberts

Bu gwŷr yn cloddio glo ym Môn o gyfnod y Tuduriaid hyd at gychwyn y Rhyfel Mawr ym 1914. Yr oedd y pyllau cyntaf i'r dwyrain o'r Lôn Bost (yr A5) ond yna ar ôl codi'r morglawdd ar draws aber Afon Cefni ym Malltraeth - gwaith a ddaeth i ben ym 1812 - agorwyd pyllau yn y morfeydd yng Nghors Dygái ac yn rhannau isaf plwyfi Llangaffo, Llangristiolus a Threfdraeth. Agorwyd y pyllau olaf ar y traeth ym Malltraeth a thu hwnt.¹ Deuai'r glowyr o blwyfi Llanfihangel Ysgeifiog, Llangaffo, Llangristiolus a Threfdraeth. Tyfodd pentref newydd Malltraeth yn rhyw fath o ganolfan i'r maes glo. Ar gyrion y pentref yr oedd llecyn o'r enw *Col-parc* lle casglwyd y glo ynghyd. Yno hefyd yr oedd y magasin. Ger y bont ym Malltraeth yr oedd tafarn o'r enw *The Colliers Arms*.²

Yn ddiau yr oedd i'r glowyr hyn eu diwylliant eu hunain - yn chwedlau ac yn gerddi. Yr oedd o leiaf ddau o'm teulu i ymhlith y glowyr³ a chlywais i doreth o chwedlau am y glofeydd o'm plentyndod.

Yn union cyn y Rhyfel Mawr cofnodwyd cân am ardal y glofeydd gan Grace Gwyneddon Davies a chyhoeddwyd hi yn y gyfrol *Alawon Gwerin Môn*.⁴ Rhed y geiriau fel a ganlyn:

Os torrith Cob Malltraeth fe foddith fy mam,
'Rwy'n ofni'n fy nghalon mai fi gaiff y cam:
Cha'i glytio mo'm trowsus na golchi f'hen grys,
'Rwy'n ofni fy nghalon byddai farw ar frys.

Mae tŷ Owan Edward yn nes at y lli,
Wel deydwch a fynnoch nag ydyw'n tŷ ni:
Os Owan a Mari fydd foddin y fan
Fe gaiff fy mam lwybr i ddianc i'r lan.

¹ Am holl hanes y cloddio, gw. T. M. Bassett, Geraint James. "Coalmining in Anglesey". *Trafodion Cymdeithas Hanes a Naturiaethwyr Môn*, 1969-70, 137-163.

² Cyfeiriad Ordnans SH408687. Tŷ Robin Young oedd yr enw olaf ar yr adeilad cyn iddo fynd yn adfail.

³ Thomas Roberts, yr hynaf, Pen-lôn, Trefdraeth (1819-1902); John Roberts, Tycanol, Llangadwaladr (Y Cawr Main: 1851-1910).

⁴ Grace Gwyneddon Davies, *Alawon Gwerin Môn* (Caernarfon [1914]), 10-11.

Owan Edwart a Margiad a redant yn glên,
A Shôn mi red yntau - mae mam yn rhy hen;
Ond diolch i'r mawredd mi wela'r hen wraig
'Ddiogel yn ochel ar lechwedd y graig.

Bu llawer damcaniaeth a myth ynglŷn â'r gân hon a'i hawdur. Cred llawer fod y gerdd yn cyfeirio at dorri un o'r cobiau ar Afon Cefni yn Rhagfyr, 1924. Eithr, gosodwyd y gerdd ar glawr flynyddoedd cyn hynny. Cred eraill mai gŵr o bentref Malltraeth oedd yr awdur. Bûm i yn chwilota am enw'r awdur am flynyddoedd heb fawr lwc. Dywedodd nifer o drigolion pentref Malltraeth wrthyf mai gŵr o Langaffo neu Langristiolus oedd yr awdur ac yn sicr fod yr "Owan Edwart" a grybwyllir yn y gerdd yn byw ym Mhen-cob, tyddyn bychan ar ben deheuol Cob Malltraeth (Cob Niwbwrch i'r trigolion).

Yna tynnodd Dr Meredydd Evans fy sylw at ddogfen yng nghasgliad John Lloyd Williams yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.⁵ Yn y ddogfen hon nodir mai rhyw Hugh Morgan o Langristiolus a gyfansoddodd y gân "Cob Malltraeth" a hynny tua 1843. Yr oedd yn fab i Edward Morgan a oedd ei hun yn fardd. Cyfansoddodd ef yr englyn hwn i'r bont ym Malltraeth:

Pont Malltraeth lanwaith ar li' - pont gadarn,
Pont gododd y seiri;
Bont hylaw ar bant heli
Un glws iawn mi glywais i.⁶

Euthum wedyn i edrych cofnodion y Census⁷ ar gyfer Llangristiolus ym 1851 a chael fod Hugh Morgan yn byw ym Modafon-bach⁸ (Bodafon Racs i'r trigolion) ger Cae'reurach. Glöwr priod 33 oed ydoedd ym 1851 ac yr oedd ganddo fab o'r enw Edward Morgan. Yna edrychais bapurau Stad Henblas, Llangristiolus a chanfod fod un o'r tyddynnod ar y stad - tyddyn a luniwyd o'r tiroedd a enillwyd ar ôl codi Cob Malltraeth ac a gafodd yr enw Parcymulod - wedi cael ei osod ym 1827 i Amy Morgan, gweddw Edward Morgan a'i meibion John Morgan a Hugh Morgan.⁹ Safai Parcymulod

⁵ LLGC, Casgliad J. Lloyd Williams 1.

⁶ *Ibid.*

⁷ Gwelais holl bapurau'r Census ar feicroffilm yn Archifdy Llangefni.

⁸ Cyfeiriad Ordnans (yn fras) SH436737.

⁹ CPC Bangor, Henblas B 367.

yn union wrth y cob gogleddol ar Afon Cefni yng ngwaelodion plwyf Llangristiolus.¹⁰ Fel y clywais, cymaint oedd pryder y teulu a drigai mewn tyddyn gerllaw Parcymulod yn y ganrif hon fel bod ganddynt gwch wedi ei gadw bob amser mewn cwt ger y tyddyndy er mwyn dianc rhag llifogydd.

Felly Hugh Morgan o Fodafon-bach, Llangristiolus oedd awdur y gerdd “Cob Malltraeth”. Amy Morgan o Barcymulod oedd “mam” a John Morgan, brawd hynaf Hugh Morgan, oedd “Shôn”. Ond, beth am Owan Edwart? Edrychais bapurau Census Llangadwaladr ar gyfer 1851 a chanfod mai gŵr o’r enw Owen Edwards a drigai ym Mhen-cob¹¹ - tyddyn nemor ddauganllath o Gob Malltraeth ei hun. (Y mae Pen-cob ym mhlwyf Llangadwaladr serch ei fod ar gyrion pentref Malltraeth).

Cân oedd “Cob Malltraeth” gan löwr ac a ganwyd gan löwyr. Y mae’n mynegi eu pryder am gyflwr gwael y cobiau ym Malltraeth a oedd yn dirywio’n wastad. (Y maent yn wael eu cyflwr hyd heddiw!) Perthyn y gân i ddiwylliant a diwydiant sydd wedi hen ddiflannu.

DIOLCHIADAU

Hoffwn gydnabod y cymorth parod a gefais gan Dr Meredydd Evans; y diweddar Richard Williams, Tyn-graig, Niwbwrch, a’r Mri Hugh Evans, Rolant Jones a Vivian Jones, Malltraeth wrth lunio’r erthygl hon. Diolch iddynt oll.

[Cyhoeddwyd yr erthygl hon am y tro cyntaf yn *Gwynedd Diwydiannol* (1996) a diolchir i’r awdur ac i’r golygydd, Dr David Gwyn, am eu caniatâd i’w chyhoeddi yma].

¹⁰ Cyfeiriad Ordnans (yn fras) SH443713.

¹¹ Cyfeiriad Ordnans (yn fras) SH411677.

‘O na bai fy mhen yn feipen ...’: golwg eto ar y canu Ffolant

Rhiannon Ifans

Bu gennyf ddiddordeb ysbeidiol mewn caneuon ffolant ers y dyddiau hinfelynnu hynny pan oeddwn yn fyfyrwr ymchwil. Yn ystod un cyfnod a dreuliais yn llyfrgell Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, tarewais ar gyfeiriadau at un neu ddwy o ganeuon a genid ar ŵyl sant y cariadon ac yn ddiweddarach, gyda'r Llyfrgell Genedlaethol a'i thoreth llawysgrifau ar stepen y drws, roedd yr awydd yn gryf i bori yn y llawysgrifau am ragor o esiamplau o'r caneuon byr ac i bwynt hyn. Casglwyd deugain ohonynt a phan ddaeth gwahoddiad y Gymdeithas hon i draddodi Darlith Goffa y Fonesig Amy Parry-Williams yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr, Llandeilo yn 1996, o leiaf yr oedd gennyf destun. Fe'u cyhoeddwyd yn atodiad i'r ddarlith honno, eto gan y Gymdeithas.

Ond nid dyna ddiwedd y stori. Rwy'n ddiolchgar i sawl cymwynaswr am ragor eto o gyfeiriadau a ddaeth i gof neu i sylw yn ganlyniad i Llandeilo. Fe'u cyhoeddaf yma, wedi'u golygu.

Daeth y cyfeiriadau cyntaf i'm sylw drwy law Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon. Yr oedd ganddo yn ei feddiant lawysgrif o farddoniaeth gaeth a rhydd yn llaw David Evans 'Dewi Dysul', y rhan fwyaf o'r cerddi yn waith Dewi Dysul ei hun ac yn ymwneud â chymeriadau ac â digwyddiadau lleol. Cynhwysa'r casgliad hwn o gerddi dair cân ffolant o waith David Evans 'Dewi Dysul'. Yr oeddwn eisoes wedi codi un o'r tair hynny o ffynhonnell arall, sef o gyfrol W.J. Davies, *Hanes Plwyf Llandyssul* (Llandysul, 1896), t. 254 a'i chyhoeddi yn un o'r deugain. Ond yr oedd dwy arall yn y llawysgrif a oedd yn newydd i mi a chefais fenthyg y llawysgrif i'w codi. Yn ddiweddarach trosglwyddwyd y llawysgrif i ofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i hadnabod wrth y rhif LIGC 23672A. Copiwyd yr englynion a ganlyn i ffolio 13^a a'u dyddio i'r flwyddyn 1850.

Englynion:

Penillion a anfonwyd mewn Valentine i Morgan Evans shop

Morgan yw cwynfan ceinferch—sy beunydd

Tan boenau trwm traserch;

I'w chiliau aeth saethau serch,

Am hynny ti yw'n hannerch.

Os arall heb ball tristgan—yw'th asen,
Fyth isod hwy 'm dodan';
Lledai 'nghri, llwyda 'ngra'n,
Mawr gwyno wnafl am Morgan!

Dewi Dysul

Englynwr digon cyffredin ei ddawn oedd Dewi Dysul, a barnu wrth y ddau englyn hyn. Ond barddoni ar ran arall yr oedd, sef ar ran un a oedd â'i golwg ar ŵr y siop. Yn ôl tystiolaeth y ddau englyn hyn yr oedd y ferch druan wedi rhoi ei chalon ar Morgan Evans, ac yr oedd hi'n glaf o boenau serch yn ddyddiol. Aethai saethau Ciwpid i bob cornel ohoni, ac am y rheswm hwnnw Morgan Evans yw gwrthrych yr anerchiad hwn o eiddo Dewi Dysul. Fe synnai'r bardd yn fawr pe byddai gan Morgan Evans asen (gwraig, neu hanes gwraig) amgen.

Cân ffolant i Farged yw'r ail o'r cerddi a godwyd o lawysgrif LlGC 23692A, ffolio 33^r. Dewiswyd canu ar ddau fesur gwahanol yn y gerdd hon ond y mae'r tri phennill yn ffurfio uned, ac yn glod i Farged.

Y folant hon 'wy'n anfon
Yn barchus iawn fy eirchion
At flodau'r merched;
Diau na ddengys Cymru
Nac un wlad ferch mor wisgi
Â'm hannwyl Farged.

Heb lai—Marged heb unrhyw fai,
Ei hwyneb siriol a'i lluniaidd ganol
Oll mor naturiol i'w chanmol gan bob rhai:
Rhagora'n ddiau ddigon ar flodau meillion Mai.

Deg bryd, nid allan mae i gyd
Ei holl brydferthwch, a'i glanwedd degwch;
Mwy gwerthfawr gwelwch na holl reialtwch byd
Ei greddfau da a'i natur, sydd gysur i fy mryd.

Dewi Dysul

Awddur arall sy'n perthyn i gyfnod ychydig yn gynharach na chyfnod Dewi Dysul yw John Thomas, Pen-ffordd-wen (1757–1835), a

chyhoeddodd ef ei gerdd ffolant am y tro cyntaf yn y gyfrol *Telyn Arian* yn 1806 (yr wyf yn ddiolchgar i Trefor M. Owen am dynnu fy sylw at y gerdd hon).

Pennill i'w roddi mewn Valentine

At fy nghares geinwen, gynnes,
Hardd beunes, lodes lân,
I chwi, meinir, mi ddymunwn,
Pe medrwn, gyrrwn gân.
Y ddoeth, synhwyrol, foddol fun,
Yn ofni Duw a pharchu dyn,
Yn medru gwiwddoeth 'madrodd gweddol,
A llesol iawn ei llun;
Mi rof eich enw, rwyf i'ch annerch,
Ar lannerch fach o lein,
Os medra'u gosod, 'madrodd cyson,
Fel tirion Valentine.
Rhof R ac O, i ledio i lawr,
N, E, dwy A, rai gwycha'u gwawr,
Dwy S, a J, sy'n ola'n eilio,
'R ôl im fyfyrio'n fawr:
A dyna'r naw llythyren
Sy'n enw'r ffraethwen ffri,
Y sawl a'u 'drycho doed, ymdreched,
Dealled, enwed hi.
Rho'r naw llythyren hyn
'N bur gain ar bapur gwyn
I weld yn eglur enw cywir
Y feinir bawb a fyn.
R'ych chwi, fy mun hawddgara,
Yn rhydda i enwi rhodd,
Fe fydd eich 'lusen, mi wn, yn llesol
A buddiol, wrth fy modd;
Rwy'n disgwyl bydd y dasg
Cyn pennod dydd y Pasg,
Bydd Duw a dynion yn gweld daioni
Mun wisgi, main o wasg.

John Thomas

Sara Jones oedd ei gares ef, ac yr oedd hithau hefyd yn hardd a glân, yr ansoddeiriau stoc a ddefnyddiwyd dros y canrifoedd wrth gyfarch gwrthrych serch. Mydryddwyd i'r gerdd lythrennau ei henw, dyfais stoc arall y cerddi ffolant, ac fe'u hebryngir gan her i'w had-drefnu er mwyn medru enwi'r ferch. Gwahoddir Sara Jones i enwi rhodd ac y mae gan y bardd bob hyder ynddi, y bydd yn enwi rhodd a fydd yn fuddiol a llesol.

Cyfeirir at y Pasg yn y gerdd hon fel mewn llawer o rai eraill o'r un cyfnod. At ei gilydd, gofyn am ganiatâd i wisgo enw'r ferch o ŵyl ffolant hyd y Pasg a wneir fel rheol. Ysgrifennid ei henw ar ddarn o bapur a'i gario o hynny hyd y Pasg. Ni esbonnir yr arferiad hwn yn yr un o'r cerddi yn eglur nac yn derfynol ond gellir dyfalu mai cyfeiriad at gyfnod y Grawys yw hwn rhwng gŵyl ffolant a'r Pasg, cyfnod o ymatal rhag bwydydd a phleserau penodol eraill megis caru. Byddai cario enw'r ferch, neu wisgo enw'r ferch, yn wobwr gysur hyd ddiwedd y Grawys gan y byddai ei henw yn agos at galon y llanc er na fyddai ei chorff.

O ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg y daw cerddi a gefais drwy law Miss Mair Jenkins, Erw Goch, Waunfawr, Aberystwyth. Y mae gan Miss Jenkins yn ei meddiant gardiau ffolant deniadol dros ben sy'n nodweddiadol iawn o gardiau'r cyfnod hwn. Daethant yn eiddo iddi gan fod hen dad-cu Miss Jenkins, sef Mr Hugh Hughes, wedi priodi chwaer Ann Vaughan, mam Eleanor Pritchard a dderbyniodd y cardiau yn wreiddiol. Cardiau papur yw'r rhain gydag ambell ddarn o ruban wedi'i blethu drwy batrwm tylllog yn y papur, sy'n atgoffa rhywun o les cain. Y mae wyneb y cerdyn yn codi o'i blyg, a gellir gweld llun serchus drwy'r papur les. Y tu mewn fe welodd y cariad yn dda i ysgrifennu neges ac i gynnig pennill i'r un a oedd yn gannwyll ei lygad. Y mae'n stori ddifyr, ac yn codi cil y llen ar stori garu ddilys.

Cadwyd dau gerdyn mewn amlen, a nodir ar yr amlenni mai:

Miss Eleanor Pritchard
Werndeg
Near Talybont
via Glandovey

sef Tal-y-bont, Ceredigion, oedd i dderbyn y ddau gerdyn. Y dyddiad postio ar y naill amlen yw 1872, ac ar y llall 1874. Arwyddwyd pob un o'r cardiau gan John Owen ond nid oes neges ym mhob un. Gellid dyfalu iddo anfon anrheg gyda'r un dinoges, efallai, neu anfon neges ar ddarn o bapur ar wahân.

Y mae carreg fedd Eleanor Pritchard yn cofnodi iddi farw yn 1923 yn 78 oed, ac fe fu farw'n ddibriod. Merch Panthaul, Cwm Eleri oedd hi, yn

ferch i Vaughan ac Ann Pritchard, ac yn ôl cyfrifiad 1851 yr oedd gan Vaughan ac Ann dri o blant yn byw gartref, sef John (17 oed), Jane (9 oed) ac Eleanor (6 oed). Symudodd y teulu i Werndeg yn ddiweddarach ac yno yn ei chartref newydd y derbyniodd Eleanor Pritchard ei chardiau ffolant.

Mab Nant-y-nod, Cwm Ceulan yng nghyffiniau Tal-y-bont, Ceredigion oedd John Owen, yn fab i John a Susannah Owen. Yng nghyfrifiad 1851 yr oedd gan John a Susannah saith o blant yn byw gartref, sef Anne (20 oed), Elizabeth (17 oed), John (14 oed), Edward (12 oed), Margaret (10 oed), William (7 oed), a Hugh (4 oed). Yn ddiddorol iawn y mae cyfrifiad 1881 yn cofnodi bod John Owen yn dal i fyw gartref yn y flwyddyn honno, yn bedair a deugain oed, ac yn ddibriod. (Yr wyf yn ddiolchgar iawn i Miss Mair Jenkins am yr wybodaeth hon.)

Nid oes modd deddfu'n derfynol ym mha drefn y derbyniodd Eleanor Pritchard y cardiau hyn, ond dyma'u cynnwys. Cadwyd yr orgraff wreiddiol am ei fod yn awgrymu rhywbeth am natur y gŵr a'u hanfonodd.

dyma ffolant yr wif fi yn anfon gyda serch ag wllis galon gan obeithio y cyraiddith i llaw fy ngariad yn llwiddianis—hin yn fir oddi wrth eich gariad

fy anwil gariad yr wif yn anfon hin o bisin bach attoch i dist gofio fy bod I ar gal eto hed y ffolant rhed yn fian paid ag aros dim yn in man disgyn lawr wrth post y gweli lle mae ngariad fach I yn cysgi mae llawer cnwc a llawer pant a llawer cant obethai a llawer twmpath bach o frwin rhwngddwi a nghariad ar hin brid. hin yn fir oddi wrth eich anwil gariad

hed y folant hed yn fian paid ag aros dim yn in man disgyn lawr wrth post y gweli lle mai ngarid fach yn gysgi hin fir oddi wrth eich anwil gariad

Fy anwyl gariad dirion yr wyf yn cael y cyfle hwn o ddanfon hyn o garedigrywydd i chwi yr oeddwn wedi meddwl eich gadael chwi heb yr un ond mi feddylias eich gadel chwi heb yr un i lodes mor grasawgar a chwi er fy wedi cael wedi cael fy anfoddloni yn fawr ynoch chwi

Nid oes ôl fawr o addysg ffurfiol ar y negeseuon hyn ond y mae John Owen yn siwr iawn o'r neges y mae'n dymuno'i throsglwyddo! Beth bynnag a ddaeth rhyngddynt, aeth Eleanor Pritchard i'w bedd yn ddibriod ac ni chlywyd hyd yma sôn i John Owen wneud yn wahanol.

Cân ddadlennol arall a ddaeth i law yw un y sylwyd arni yng nghasgliad Penrice & Margam (rhif A 72) yn y Llyfrgell Genedlaethol. Nid oes dyddiad ar y llawysgrif ond y tebyg yw ei bod yn perthyn i'r ddeunawfed ganrif. Nid oes enw awdur wrth y gerdd ychwaith, ond a barnu wrth natur y llaw, ac ar ei arferion orgraffyddol, unigolyn na chafodd fawr o addysg ffurfiol a fu wrthi'n copïo'r gerdd hon i'r llawysgrif.

Y mae'n gerdd dra diddorol. Fe berthyn i'r *genre* traddodiadol o anfon aderyn yn llatai, a'r tro hwn yr eos yw'r negesydd serch. Disgrifir yr eos fel un 'gwydych ei ymffrost' a 'ffraeth'; y mae'n canu *gwawd* mwyn, sef cân foliant (cyn i ystyr y gair ddirywio i olygu 'dychan' neu 'watwar') gyda'r gorau, a'r eos yw capten y goedwig. Pa well negesydd a geid i gyfarch cariadferch y bardd? Ni allai'r bardd ei hun wneud damaid yn well, meddai ym mhennill pedwar. Y neges sydd i gael ei mynegi yw fod y bardd yn gwisgo enw'r ferch fel garlant Valentine, gyda balchder, ac fe esbonnir yn y pennill dilynol sut y bu iddo ennill ei henw hi, rhagor nag enw merch arall, yn Falendein. Daw'n amlwg fod y bardd, ar un achlysur, 'ymysg y cwmpni', hynny yw yn un o nifer, ac i'w henw ddod iddo drwy dynnu 'lot', sef drwy dynnu enw ar hap o gasgen neu o flwch. Dyna arfer y ddeunawfed ganrif o dynnu enw'n ffolant, fel y tystir o nifer o gerddi eraill y ganrif honno megis un o gerddi John Jenkin 'Ioan Siencyn':

Damweiniodd imi'n gynnar,
Wrth lot, yn wir, eich enw pur.

Ni ŵyr y bardd anhysbys beth fydd ei ffawd ar law'r ferch hon. Braint y ferch oedd derbyn neu wrthod enw a gyflwynid i'w sylw, ac efallai y câi sawl cynnig gan sawl darpar-garwr brwdfrydig. Ond er bod y bardd yn cymryd llam i'r anwybod wrth anfon y llatai hwn ar neges drosto, y mae'n byw mewn gobaith y bydd y ferch yn driw iddo, ac os na fydd yn ffyddlon iddo, wel 'does mo'r help—wedi'r cwbl, dim ond yn ôl ei meddwl a'i chydwybod ei hun y gallai hi fihafio. Cerdd mewn tafodiaith yw hon, wedi'i chofnodi mewn orgraff anghyson.

A Welsh Song to a Valentine

Yr eos dewrfost diddig,
Cenhadwr ffraeth arbennig,
Tegwawdydd mwyn, pruddlais ben,
Dydi yw Capten coedwig.

Ti'n hyn heb wneuthur taring,
Dy reso ni bydd cyfyng,
Os dau droso' i'n lawn ar led
Odd' yma hed y rhiding.

Ac annerch cyngen barod
Hoffe hinife mwyn huffe manod
Llewndid tyrfa, glendid gwlad,
Ym mhob ymddygiad mawrglod.

Mi wn nad rhaid im yngan
Rhoi'n dy ben di ddatgan
Y dwedi'n ffraeth wrth deg ei dawn
Fal pe bawn fy hunan.

A dweud wrth ddyn hoyw
Fy mod yn gwisgo'i henw
Yn Valentine, Gwen deg ei phryd,
Fal garland, nid yn salw.

Gwedi dyfod imi
Wrth lot ymysg y cwmgni
Fel na allwn, Gwen dda 'i chlod,
Ond rhoi hysbystod ichwi.

Os dyma'r gwir fod amser
Medd hen ddiarhebion mwynber,
Gwell o'r byd Gwen fawr ei gras
Na mynd i maes o'r arfer.

A thyma i chwi'r achosion
A wnaeth myfi mewn moddion
Yn hyn o waith rhyfygu ar neb
Na byddwn heb gyfeillion.

Ac felly, pan y gweles
Eich enw, serchog dduwies,
Dyma obaith fore a hwyr
Nad metha'n llwyr fy neges.

Gan ddwedyd yn ddiragraith
Greso fostben unwaith
Er ys dyddie clywch ar hyn
Fûm yn ei erfyn ganwaith.

Yn awr ydd wy' mewn llawngred,
Dan hwyl, yn hoffi'r weithred;
Am fy nhrafel, clywch yn syth,
Na cha' i fod byth ar gollod.

Dos weithon, dyna nhrwbwl,
A rho fe'n llaw'r ddynd *faithfull*
Trwy ddwyn fy annerch pur dros ben,
A gwneled Gwen 'i meddwl.

Cynnyrch cystadleuaeth yn Swyddfa Bost Waunfawr, Aberystwyth yw'r ddwy gerdd ffolant ddiweddaraf a ddaeth i law. Efallai fod y ffaith fod cerddi ffolant bellach yn destun cystadleuaeth ynddo'i hunan yn dweud rhywbeth wrthym am statws presennol penillion o'r fath. Yn sicr, rhywbeth i ddenu cwsmeriaid newydd ac i gadw'r hen rai yn hapus oedd y gystadleuaeth ar y dechrau. Rhigymau cellweirus yw'r cynnyrch cyfoes a'r elfen dynnu coes yn amlycach nag unrhyw neges serch ddilys.

Sefydlwyd y gystadleuaeth gan berchenogion y Swyddfa Bost, Gaynor a Peter Edwards, yn 1996. Lleolir safle'r post a'r siop mewn ardal sy'n dew o fyfyrwyr yn lletya mewn adeiladau hunanarlwyol o eiddo'r Brifysgol. Ond yr oedd llawer iawn o Gymry Cymraeg hefyd yn cefnogi'r fenter hon, a Dafydd Ifans o Benrhyn-coch yn eu plith. Ai yno'n rheolaidd ar egwyl cinio o'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i brynu stampiau a chât air â Gaynor yn y siop ac â Jên Ebenezer (gwraig Lyn Ebenezer), wrth gownter y post. Wrth ddod i mewn i'r siop un amser cinio rhoddwyd papur yn ei law gyda'r cyfarchiad 'Ti'n barddoni—sgrifenna gerdd ffolant erbyn fory!' Ac felly y bu. Fe ysgrifennodd bennill i'r ferch glên a oedd â gofal y cownter post.

Ychydig ddyddiau ynghynt fe ddarlledwyd sgwrs radio rhwng Lyn Ebenezer ac eraill; ynddi fe ddatgelodd Lyn Ebenezer mai ei hoff eilun yn y sinema oedd Jane Fonda, sy'n esbonio'r gyfeiriadaeth yn nwy linell gyntaf y pennill; Kevin Davies, sy'n berchen ar siop flodau yn nhref Aberystwyth ac sy'n un o bileri bywyd Cymraeg y dref, yw Kevin llinell 13; y wobr am gipio'r safle cyntaf yn y gystadleuaeth oedd tedi bêr blew meddal, gyda ruban a chalon goch am ei wddf. Afraid dweud mai dyma gerdd arobryn y flwyddyn honno!

I Jên

Yr wyt ti Jên yn ferch fach glên
Yr wyf reit Fond(a) 'honat
A wir, rhen Siân,
I ti mae 'nghân,
Ie wir, ti yw fy Ffolant.
Fe geisiais gofio'n santes *ni*
Yn Ionawr, ond anghofies
A nawr ar ŵyl yr estron Val
Fe geisiaf anfon neges.
Rwyf fi'n hen Gardi, weli di,
(Meddyliais anfon cerdyn),
Fe wnes i 'styried bocs o *chocs*
A blode o siop Kevin,
Ond gan fod papur Gaynor fach
Mor lân a gwyn a handi
Fe steddes lawr a llunio cerdd
A dyma fi'n barddoni!
Wel cofia nawr, pan weli fi
Yn prynu stampiau'n ddyddiol,
Tu ôl i'r gwydr dyro wên,
'Rhen Jên, i ddyn bach fforddiol.
Ac os mai fi enillith Ted
Yn atgof bydd i aros,
Cans rhatach cadw tedi bêr
Na gwraig a'i gêr, a phlantos.

Dafydd Ifans



Dafydd Ifans ar y chwith a buddugwyr eraill yn y gystadleuaeth. Ar y dde mae Gaenor Edwards a Jên Ebenezer yn agosaf ati.

Y flwyddyn ddilynol daeth beirdd newydd i'r gystadleuaeth ond yr un oedd y dasg. Gwron adnabyddus iawn a gipiodd y llawryf yn 1997, neb llai na Vernon Jones, Bow Street. Y pennill telyn oedd y mesur a aeth â'i ffansi ef, ond fe anadlodd iddo fywyd newydd. Yn union fel y bu i feirdd caeth yr Eisteddfod Genedlaethol chwistrellu arddull gyfoes i hen fesur yr awdl, a geirfa newydd i hen ddeinosor o batrwm geiriol, felly yn yr achos hwn gyda'r pennill telyn. Ni chynhwyswyd erioed o'r blaen gyrrï a sbeis yn y mesur a gysylltir mor aml â'r ddeunawfed garrif.

Ar Wyl Sant Ffolant

O na bai fy mhen yn feipen
Fel y gallet dan fy nhacen
Lunio llyged, trwyn a gwefus
Sydd wrth fodd dy gusan melys.

O na bait yn llyn o gyrrï
Llawn o sbeis a ffrwythau lyfli,
Llosgi nghorff a llosgi nhafod
A byth yn blino byta gormod.

Vernon Jones

Bellach daeth perchenogion newydd i siop y Waun ac ni chlywais sôn am y gystadleuaeth eleni. Tybed a ddaw tro arall i gynffon hanes y caneuon ffolant? Maent yn sicr yn adlewyrchu'r gymdeithas sy'n eu creu; beth tybed fydd haneswyr cymdeithasol yn ei wneud o'r gymdeithas hon yn wyneb y cerddi uchod?

RHAGOR AM DDWY ALAW

Huw Williams

Yr eneth glaf

Bu eisoes gryn drafod ar y gân hon mewn llyfr a chylchgrawn dros y blynyddoedd diwethaf, ond rwy'n amau fod yna fwy y gallir eto ei ddweud amdani, os gellir perswadio ambell i un i wneud rhagor o ymholiadau! Credaf fod y copi argraffedig cyntaf o'r gân - y geiriau a'r gerddoriaeth - wedi ymddangos yn *Beth am gân!*, sef "detholiad o ganeuon poblogaidd o Ddyffryn Ogwen" (Cyfres y Fro, Cyfrol 2), a gyhoeddwyd gan Gangen Dyffryn Ogwen o Fudiad Adfer ym mis Gorffennaf 1978. Wele'r ffurf yn y fan honno:

YR ENETH GLAF

d : - : m	m : - : d	r : - : m	r : d : -	
s : - : l	s : - : m	m : r : d	r : - : -	
d : - : m	m : - : d	r : - : m	r : d : -	
s : - : l	s : - : m	r : m : r	d : - : -	
s : - : m	s : - : l	s : - : m	s : s : -	
m : - : r	d : - : s	m : r : d	r : - : -	
m : - : m	r : d : -	s : - : m	r : d : s	
s : - : l	s : - : m	r : d : r	d : - : -	

"O! mae'r haf yn hir yn dyfod,"
Meddai geneth fechan, glaf,
"Pryd mae'r gwanwyn yma i ddarfod,
Pryd, O! mam, y daw yr haf?"

"Dweud o hyd y mae'm cyfeillion,
Dyma'r unig gysur gaf,
'Cwyd dy galon, eneth dirion,
Mi fendi di pan ddaw yr haf'."

"Oes rhyw arwydd fod hi'n c'nesu?
Oes briallu hyd y pant?
Ydyw'r adar bach yn nythu
Ym mieri gwyllt y nant?"

“Dweud o hyd y mae’ m cyfeillion
Dyma’r unig gysur gaf,
‘Cwyd dy galon, eneth dirion,
Mi fendi di pan ddaw yr haf’.”

“ ‘Chlywodd neb y gog eleni
Ar hen dderi mawr y ddôl?
Ond i honno ddechrau canu
Haf sy’n gwenu ar ei hôl.”

“Dweud o hyd y mae’ m cyfeillion,
Dyma’r unig beth a gaf,
Is fy meddrod i flodeuo -
Rhyw sypyn bach o flodau’r haf”.

Ond ai un o ganeuon Dyffryn Ogwen yw hon mewn gwirionedd, ai ynteu cân a gludwyd yno ryw hanner canrif yn ôl, a dod yn wir boblogaidd ymhlith y trigolion?

Hwyrach ei bod yn arwyddocaol fod y geiriau canlynol yn ffurfio rhan o ragair *Beth am gân!* :

Cyfrol yw hon sy’n cynnwys detholiad o ganeuon gwerin o Ddyffryn Ogwen. Dichon nad yw pob un yn perthyn yn neilltuol i’r fro hon, ond mae tystiolaeth iddynt oll fod yn boblogaidd ymysg y trigolion ryw dro neu’i gilydd...

Tri o wyrda o Ddyffryn Ogwen y cefais air â hwy ynghylch y gân - a’r tri yn haneswyr lleol dibynadwy - yw’r Prifardd Ieuan Wyn, John Elwyn Hughes, a T. Gwynn Jones. Roedd y tri am hawlio’r gân i Ddyffryn Ogwen, er nad oedd yr un ohonynt mewn sefyllfa i “nodi’r union bennod a’r adnod”!

Aeth y diweddar Ernest Roberts, Bangor (1898-1988) - brodor arall o Fethesda a ymchwiliodd yn bur fanwl i hanes yr ardal - ymhellach na neb y gwn i amdano pan haerodd mewn sgwrs fod y gân yn coffáu merch ieuanc o Fethesda a fu farw o’r diciâu, a’i fod yntau’n cofio’n dda am y cyfnod pan oedd cryn ganu arni ym Methesda pan oedd yn ŵr ieuanc.

Ond cyn dod i unrhyw benderfyniad terfynol, rhaid cofio y bu gan Ifan O. Williams ran amlwg yn y gwaith o ddiogelu onid hefyd gofnodi’r gân hon, fel y dangosodd fy nghyfaill Meredydd Evans. A chan y byddai ef a Hogia’r Gogledd yn canu’n aml ar y radio ryw drigain mlynedd yn ôl, ac yn debygol o fod wedi canu’r gân hon, onid yw’n rhesymol tybio mai

o Fangor y cludwyd hi i Fethesda mewn gwirionedd, yn hytrach na'i bod yn un o ffefrynnau brodorol Dyffryn Ogwen? Beth bynnag yw'r ateb, rwy'n rhagweld y daw eto rago'r i hanes i olau dydd maes o law!

Y bachgen main

Mae traddodiad yr alaw hon, fel y dangosodd Meredydd Evans, yn gryn ddirgelwch, ac yn bersonol nid wyf yn rhy siŵr a gludwyd hi o'r ffair i'r cysegr ynteu i'r gwrthwyneb.

Mi wn fod tystiolaeth fod y fersiwn mwyaf adnabyddus ohoni yn gryn ffefryn gan "lanciau gweini" ym Môn ryw ganrif a chwarter yn ôl, ac fe gadarnheir hynny mewn nodyn diddorol yn y gyfres 'Ystafell yr Hen Alawon' yn rhifyn Gorffennaf 1865 o'r *Cerddor Cymreig*. Ond beth am y defnydd o'r alaw fel emyn-dôn?

Fe'i cyhoeddwyd ddwywaith ym 1876 ar gyfer geiriau cysegredig, yn gyntaf dan yr enw 'Elwy' yn *In Memoriam*, casgliad o donau y diweddar John Roberts, Henllan (cyfrol wedi ei golygu gan W. H. Roberts, mab John Roberts), ac yna dan yr enw 'Nefydd' yn *The St. Asaph Tune Book, a Musical Companion to the St. Asaph Hymn Book*, sef casgliad o 265 o donau ar wahanol fesurau, wedi ei gyhoeddi yn y Rhyl, gyda'r gerddoriaeth wedi ei golygu gan W. J. Hughes, Llanelwy (er na ddywedir mo hynny yn y gyfrol). Wele ei ffurf yn y naill casgliad a'r llall:



Ym 1878 - ddwy flynedd yn ddiweddarach - eto dan yr enw 'Elwy', fe'i cynhwyswyd yn *Caniadau y Cyssegr a'r Teulu* (Dinbych: Thomas Gee), gyda'r llythrennau "W.J. H." yn ymddangos o dan y gerddoriaeth.

Mae teitl y gyfrol gyntaf y cyhoeddwyd yr alaw ynddi braidd yn gamarweiniol, gan mai un ar hugain yn unig o alawon gwreiddiol gan

John Roberts, Henllan, a geir ynddi mewn gwirionedd (rhyw un ar ddeg ohonynt yn ymddangos am y tro cyntaf erioed), a bod 'Elwy' yn ymddangos mewn 'Atodiad' i'r gyfrol, sy'n cynnwys amryw o emyn-donau gan wahanol awduron, rhai ohonynt yn parhau'n boblogaidd hyd heddiw.

Yr hyn sy'n gyffredin i'r alaw fel y cyhoeddwyd hi ym 1876 ac ym 1878 yw ei bod yn cael ei disgrifio fel "Alaw Gymreig wedi ei chynghaneddu gan W. J. Hughes", gŵr a luniodd hefyd gyflwyniad Saesneg diddorol iawn i'r gyfrol *In Memoriam...*, a'i ddisgrifio gan W. H. Roberts (mab i John Roberts, Henllan) yn y rhagymadrodd fel "un o hen gyfeillion fy nhad".

Daw hyn â ni ar unwaith i faes diddorol hen alawon y diwygiadau crefyddol, gan fod John Roberts, Henllan, a aned yn Henllan, Sir Ddinbych, ym 1807, wedi treulio oes yn casglu a chyhoeddi hen donau a gyfansoddwyd gan gerddorion ein cenedl yn ystod diwygiadau crefyddol y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ganrif ddilynol.

Nid dyma'r lle i fanylu ar hanes bywyd a gwaith John Roberts gan imi eisoes wneud hynny mewn llyfr a chylchgrawn, a dangos ar yr un pryd, gobeithio, fy mod yn gryn edmygwr o'i lafur diflino mewn cyfnod cyn bod llawer o fanteision addysg o fewn cyrraedd gwerin gwlad. Digon fyddai nodi unwaith eto fod John Roberts nid yn unig wedi cyhoeddi amryw o'r hen alawon mewn llyfr a chylchgrawn, ond ei fod hefyd wedi rhoi "thai ugeiniau ohonynt" (ys dywedodd ei fab, W. H. Roberts) i hwn a'r llall i'w cyhoeddi mewn amryw o gasgliadau a chylchgronau a ymddangosodd rhwng 1837 a 1855, ac a gafodd gylchrediad eang.

Gan eu bod yn gyfeillion mynwesol, fe wyddai W. J. Hughes yn well na neb am lafur diflino John Roberts yn casglu a chofnodi hen alawon brodorol y genedl, ac fe wyddai hefyd am yr alawon yr oedd eisoes wedi eu cyflwyno i hwn a'r llall i'w cyhoeddi, a pha alawon oedd yn dal ar ei ddwylo. Oherwydd hynny, tybed onid gan yr hen gerddor o Henllan y cafodd gopi llawysgrif o 'Elwy' (neu'r 'Bachgen Main') i'w chyhoeddi ym 1876, a bod yr hen alaw honno yn enghraifft dda o alaw a fyddai'n cael ei harddel yn niwygiadau crefyddol y ddeunawfed ganrif? Mae popeth yn cadarnhau hynny, er na chadwodd John Roberts fanylion am yr un o'r alawon y bu'n eu cofnodi'n ddiwyd dros ddegain mlynedd o'i oes.

Pwy ynteu oedd W. J. Hughes a drefnodd yr hen alaw gyntaf fel emyn-dôn fodern, mesur 87.87. Dwbl? Ceir nodyn amdano yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*, lle y dywedir ei fod yn gerddor ac yn ysgolfeistr, a fu farw'n fuan ar ôl cyhoeddi 'Elwy'/'Nefydd', yn ŵr ieuanc 46 oed, "ar ôl cynorthwyo John Roberts, Henllan, gyda'i gasgliad tonau *In Memoriam...*".

Y TYWYSOG

Sgubai'r cymylau carpiog
Dros welw ddur y lloer,
A phoerai dicter Rhagfyr du
Arnom ei genllysg oer
Wrth inni ddwyn dros haearn dir
Gorff ein Tywysog i Gwm Hir.

Corff pennaeth heb ben arno,
Y pen urddasol gynt
A ddarniwyd gan ryw greulon gledd
A'i anfon ar ei hynt
I'w roi ar bawl yn Llundain front
Yn destun crechwen ar ryw bont.

Ddoe yn ei rwysg o Wynedd
I Fuallt daeth ein Llyw,
A bonllef ei gyd-Gymry fyth
Yn gynnes ar ei glyw,
Ond heno'n fud - a chlywch y braw
Yn hynt y gwynt a brath y glaw.

Wrth gyrchu'r pell abaty
A noddfa'r Brodyr triw
Cludem ym mhlygion mantell hwn
Deilchion ein breuddwyd briw;
Paham na syrthia'r sêr i'r tir
Uwch bedd Tywysog yng Nghwm Hir?

Rhuthrai'r cymylau bratiog
Ar draws y wybren blwm
Pan roesom yno i orwedd mwy
Gorff ein Tywysog trwm,
A'i Frodyr Gwynion ffyddlon o
Yn siantio'u hiraeth uwch ei ro.

A chyrchu Gwynedd wnaethom
Yn safndrwm yn ein gwae,
A chefnu ar floeddiadau pell
Y gelyn uwch ei brae
Wrth sengi'n haerllug dir ein gwlad,
A'r hwn a'u rhwystrai'n drist ei stad.

Ac yma yn Eryri
A'n byw yn boen a braw
Hir chwiliwn waedliw'r gorwel pell
A holwn pwy a ddaw
I warchod hyd at dranc ein tir
Yn enw'r Tywysog yng Nghwm Hir.

Tegwyn Jones

Ysgrifennwyd y faled uchod gan Tegwyn Jones, Bow Street, Ceredigion, ar gais Eleri Roberts, Comins Coch, Aberystwyth, i'w chanu mewn cystadleuaeth canu baled wreiddiol yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelwedd 1993. Bu'n fuddugol yn y gystadleuaeth honno, ac y mae wedi ei chanu droeon wedyn.



Eleri Roberts ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol

‘HOSANNA’ A’I CHYSYLLTIADAU

Rhidian Griffiths

Un o nodweddion cylchgrawn *Y Cerddor Cymreig*, a ymddangosodd yn fisol o Fawrth 1861 hyd Ragfyr 1873, oedd parodrwydd y golygydd, Ieuan Gwyllt, i gyhoeddi ‘hen alawon’ y byddai darllenwyr yn eu hanfon ato. Amrywiol natur yr alawon hyn yn fawr: roedd llawer ohonynt yn alawon telyn, rhai yn alawon gwerin, a nifer yn alawon a ddefnyddid i ganu emynau arnynt. Crefyddol, at ei gilydd, oedd diddordebau’r golygydd: tueddai bwysu a mesur pob alaw yn ôl ei gwerth ar gyfer y cysegr, ac am y rheswm hwnnw ni fyddai’n poeni am gynnwys y geiriau a fyddai’n cael eu canu ar yr alaw(on). Yn amlach na heb, mae’n siwr, ni fyddai’r cyfranwyr hwythau yn cynnwys y geiriau wrth anfon ato.

Un o’r cyfranwyr mwyaf cyson oedd E. Yllyr Williams (Yllyr Eryri) (1835-1911), a ddiogelodd nifer o alawon diddorol, ac a gyhoeddodd ddau gasgliad, *Alawon y Bobl* a *Caneuon y Bobl*, yn ogystal â chyfrol o gerddi, *Odlau Yllyr*. Yn 1865 anfonodd dair alaw at Ieuan Gwyllt. Roedd un ohonynt, ‘Noswyl’ o’r *Welsh Church Tune Book* gan Thomas Jones, yn addurniad o’r canon adnabyddus gan Thomas Tallis, ac fe’i condemnwyd gan Ieuan yn ‘un o’r llygriadau mwyaf gwael a ffôl a wnaed ar un dôn erioed’. Yn ei *Lyfr Tonau Cynulleidfao* yn 1859 roedd ef wedi diogelu ffurf syml y dôn, ac ni chroesawai o gwbl yr addurniadau yr oedd cenedlaethau o gantorion wedi’u gwau o gwmpas yr alaw.¹

Nid yw Ieuan yn rhoi unrhyw sylw ar yr ail, alaw sionc ‘Y wenynen’, a all fod yn alaw ddawns. Dywed Yllyr ei bod yn cael ei phriodoli i ‘John Williams’, ond nid yw’n mentro awgrymu pa John Williams; ac ychwanega fod gan ‘Llystyn’ (sef Robert Jones, 1830-82) ‘eiriau pert iawn wedi eu cyfansoddi arni’, ond ni chyhoeddir y rheini yn *Y Cerddor*.

Mae’r drydedd alaw, ‘Hosanna’, yn eang a diddorol ei chysylltiadau. Ceir gan Yllyr ddwy ffurf arni, a dyma fel y mae’n eu cyflwyno:

Wrth droi tudalenau y *Welsh Church Tune Book*, gan y Parch T. Jones, sylwais ar y Don Rhif 171, a thybiais ar unwaith fy mod wedi gweld neu glywed rhyw hen don gerdd neu garol pur debyg iddi faith amser yn ol; ac yr wyf yn cael fy nhueddu yn gryf i farnu fod hon a honno yn berthynas i’w gilydd, os nad yr un dydynt.

¹ *Y Cerddor Cymreig*, 3 (1865), 67-8

Y ffurf gyntaf a roddir yw'r dôn fel y mae yn y *Welsh Church Tune Book*:




Yr ail, mae'n debyg, yw'r 'dôn gerdd neu garol' yr oedd Ylltyr wedi'i chlywed:



Wrth ymateb, mae Ieuan yn cadarnhau ei fod yntau wedi clywed y dôn:

Gyda golwg ar y Don a eilw ein gohebydd 'Hosanna' nid oes dim amheuaeth nad hen don a genir yn gyffredin iawn ar hyd ein heolydd, ac yn enwedig gan forwyr, ydyw. Fel hyn y dywed Mr Chappell [sef William Chappell, awdur *Popular Music of the Olden Time* (1859)] am dani: "Pe digwyddai i'r darllenydd gyfarfod a haner dwsin o ddynion yn canu ar heolydd Llundain gyda'u gilydd, mae y tebygolrwydd yn fawr mai hon fyddai y don. Weithiau bydd y dynion yn gwisgo fel morwyr, bryd arall fel gweithwyr allan o waith. Yr wyf yn cofio ei chlywed er ys llawn ddeugain mlynedd yn ol; ac yr wyf wedi ei chlywed gyda chysondeb mawr bob blwyddyn o hynny hyd yn hyn".

Yna dyfynna Ieuan yr alaw fel y mae gan Chappell, gan ychwanegu: ‘yn debyg iawn i hyn y cenid hi gan ddau ddyn, wedi colli eu coesau, ar heolydd Merthyr y dydd o’r blaen’.



Ymddangosodd ffurf ar yr alaw yn y casgliad *English County Songs*, a olygwyd gan Lucy E. Broadwood a J. A. Fuller Maitland ac a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1893. Ei theitl yno yw ‘Lazarus’, a dywedir iddi gael ei nodi gan A. J. Hipkins yn Westminster:

Mr Hipkins knew no words for the tune, but has known it for many years under the name “Lazarus”; it was also recognized as the tune belonging to a song referring to the same subject, by an old woman in Westminster, in December, 1892.



Y pwnc dan sylw yw dameg y dyn goludog a Lazarus o Efengyl Luc, pennod 16; ac yn y gyfrol *English County Songs* priodir geiriau'r faled 'Diverus and Lazarus', carol o swydd Gaerwrangon, â'r alaw. Yn yr *Oxford Book of Carols* a ymddangosodd yn 1928 awgrymir bod y dôn yn perthyn mewn gwirionedd i'r gerdd 'Job':

Come all you worthy Christian men
That dwell upon this land...

Mae trydydd pennill y gerdd hon yn cyfeirio at Lazarus yn gorwedd wrth ddrws y dyn cyfoethog, a gallai hynny esbonio cysylltu enw Lazarus â'r alaw.

Yn 1906, fel rhan o'i ymgyrch i gyfoethogi addoliad eglwysig â cherddoriaeth draddodiadol, cynhwysodd Ralph Vaughan Williams y dôn yn *The English Hymnal*, wedi'i gosod ar eiriau Horatius Bonar, 'I heard the voice of Jesus say', a'i henwi 'Kingsfold', am mai yn Kingsfold, ger Horsham, y clywsai ef yr alaw. Fe'i trefnodd hi hefyd i gerddorfa linyddol dan yr enw 'Five Variants on Dives and Lazarus'.

Mae'n amlwg i'r alaw gael cylchrediad eang. Roedd yn adnabyddus yn Iwerddon ar eiriau 'The star of County Down'; a thybed ai Gwyddelod oedd y dynion y clywodd Ieuan Gwyllt yn ei chanu ar strydoedd Merthyr yn 1865? Erbyn hyn daeth yn bur adnabyddus yn Lloegr fel emyn-dôn, er na ddaeth yn arferedig yng Nghymru hyd yn hyn, o leiaf nid ymhlith cynulleidfaoedd Cymraeg. Diddorol yn y cyswllt hwn yw nodi sylw Ieuan Gwyllt: 'Mae yn hen alaw ragorol; ond nid ei lle yw cysegr Duw'.

SHÂN EMLYN

Teyrnged a draddodwyd gan Meredydd Evans yn ystod gwasanaeth yng Nghapel Pen-mownt, Pwllheli, ar ddydd ei hangladd, 6 Ionawr 1998

Rydw i am ddechrau trwy adrodd hanesyn i chi am ferch fach, ryw dair oed, yn Rhydychen a hynny ychydig cyn yr Ail Ryfel Byd. Roedd ei thad yn gweithio yn ffatri Morris Motors fel clarc a'r fam gartre yn edrych ar ôl y fechan. Un bore cafodd y fam ddamwain yn y tŷ a brifo'i choes ond yn ffodus daeth cymdoges heibio. Yn yr helynt o gynorthwyo collwyd golwg ar yr hogan fach a phan ddaeth y tad adre amser cinio doedd dim golwg arni. Cafwyd hyd iddi wedyn ar y ffordd fawr sy'n arwain o Rydychen i Lundain wrth ymyl ciosg teliffon ac roedd hi yn y fan honno eisiau dweud fod ei mam wedi'i brifo.

Wrth feddwl am y stori yna daw tri pheth i'r golwg: meddylgarwch, dewrder a phenderfyniad i wneud rhywbeth ymarferol. Dyna Shân.

Tua'r un amser daeth y teulu'n ôl i Gymru, i'r Felinheli, ac ymhen ychydig roedd Shân yn cystadlu mewn eisteddfodau. Roedd ei mam yn gerddorol ac wedi cychwyn ei gyrfa fel athrawes cerddoriaeth mewn ysgol. Ei thad hi wedyn yn chwarae hefo Band Nantlle er pan oedd o'n hogyn ifanc. Dyna aeth â fo i Rydychen - gweld yn y *Bandsman* fod isio trombonydd i chwarae ym Mand Morris Motors a bod na swydd clarc yn mynd hefo'r chwarae trombon.

Ei mam oedd yn ei hyfforddi ar y dechrau, mewn cerdd dant, unawdau ac adrodd ac ymhen dim o dro crwydrai'r ddwy o steddfod i steddfod yn y gogledd. Caffaeliad mawr i Shân hefyd oedd y ffaith ei bod yn byw'r drws nesa i Maimie Noel Jones a bu Maimie yn gymorth mawr iddi; yn ffrind oes. Erbyn cyrraedd un ar ddeg oed cystadleuai yn yr eisteddfodau mawr; yn Eisteddfod Lewis's, Lerpwl, er enghraifft, a thystiodd am y tro hwnnw: 'fy solo gyntaf oedd "Hei di ho" gan Haydn Morris, Llanelli'.

Ymhen ychydig wedyn cystadleuai yn Eisteddfod Bae Colwyn, 1947, gan ennill ar y canu gwerin dan un ar bymtheg oed a phawb yn rhyfeddu ati ei bod hi mor ifanc. Yna, flwyddyn yn ddiweddarach, cystadleuodd yr un mor llwyddiannus yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen. Yn yr Eisteddfod honno hefyd yr enillodd y cystadleuydd hynaf ar ganu gwerin ar y pryd yng Nghymru, sef John Thomas, Maesyfedw, a mi hoffwn i fod wedi clywed y ddau yna yn mwynhau cwmni ei gilydd: dau mor hynaws a hyfryd eu natur.

Dyna'r flwyddyn, eto, yr enillodd Shân ar ganu gwerin yn Eisteddfod

Pen-y-bont ar Ogwr - hanner can mlynedd yn ôl bellach.

Erbyn iddi fynd i'r Ysgol Ramadeg roedd y teulu wedi dod yma i Bwllheli i fyw. Dyna pryd y daeth Shân gyntaf i gysylltiad â Ceridwen Lloyd Davies, athrawes gerdd amlwg iawn ar y pryd. Mi glywodd hi'r gantores ifanc yn canu yn un o'r eisteddfodau ac fe'i gwahoddoddi hi i ddod ati i Harlech am wersi canu. O ganlyniad i hynny mi ehangwyd ei gorwelion cerddorol.

Digwyddodd yr un peth yn yr ysgol yma ym Mhwllheli dan gyfarwyddyd yr athro cerdd, John Newman. Dechreuodd Shân ymddiddori mewn oratorio a lieder yn ogystal â chaneuon gwerin ac unawdau steddffod. Agorwyd drysau perfformio eraill iddi hefyd, a chyn bo hir fe'i clywid yn canu ar raglenni radio megis 'Awr y Plant', 'Aelwyd y Gân', ac ati. Mae gen innau gof amdani yn canu ar raglen 'Y Noson Lawen' (hithau tua phedair ar ddeg i bymtheg oed ar y pryd) ac yn cynnal cyngherddau dros y Gogledd. Meddai unwaith: 'mi wnes i gyfarfod llawer o gantorion enwog fel Nancy Bateman, David Lloyd, Bruce Dargavel, ac yn y blaen'.

Wedyn mi ddaeth y teledu a rydw i isio darllen stori amdani yn mynd i Lundain i wneud rhaglen deledu am y tro cyntaf:

Un tro mi es i deimlo dipyn yn annifyr. Pymtheg oed oeddwn i ac yn teithio ar fy mhen fy hun bach i Lundain i gymryd rhan mewn rhaglen deledu am y tro cyntaf. I basio'r amser yn y trên dyma benderfynu cyfrif pob erial deledu rhwng Pwllheli ac Euston a synnu a rhyfeddu wrth feddwl y buaswn i'n canu mewn cymaint o barlws ffrynt y noson honno.

Hefo'r holl gefndir yna aeth Shân i Lundain yn 1954. Mi fu yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn y fan honno gan wneud llu o gyfeillion newydd; yn eu plith y gantores Gwyneth Jones.

Mi fanteisiodd ar y cyfle hefyd i fynd i bob math o gyngherddau yno ac i'r theatrau opera. Bu hi ei hun yn perfformio droeon yn y cylchoedd Cymreig yno ac mewn cylchoedd Seisnig yn ogystal. Yn Gwendolen Mason cafodd athrawes telyn o'r radd flaenaf ac yn y Coleg Cerdd rhoedd iddi wobr arbennig Julia Leney ar ganu'r delyn. At hyn galwyd arni i fod yn Ysgrifennydd i Gymdeithas Myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol yn Llundain.

Yn 1958 priododd ag Owen Edwards ac yn fuan wedyn dyma ddechrau magu teulu. Dyna ddiwedd, felly, ar y freuddwyd o fod yn gantores broffesiynol. Fel roedd gwaith Owen yn troi o fod yn berfformiwr teledu i fod yn weinyddwr deuai galwadau eraill i bwyso arni. Mae'n wir iddi ddal ati i berfformio - Granada, TWW, HTV ac ambell gyngerdd - ond roedd cyfyngiadau pendant ar y canu bellach.

Yn y cyfnod hwn y daeth Phyllis a minnau i'w hadnabod yn dda. Roeddem yn byw o fewn rhyw hanner milltir iddi a daethom yn dystion i'w chyfraniad helaeth i fywyd cymdeithasol Cymraeg Caerdydd. Wn i ddim faint o bwyllgorau fyddai'n cyfarfod yn ei thŷ. Cefnogai'r cymdeithasau Cymraeg i gyd, yn arbennig felly y Mudiad Ysgolion Cymraeg, yr Ysgolion Meithrin a'r Urdd: rhoes flynyddoedd ac ynni lawer i hybu gwaith yr Urdd bid siŵr. Yna bu'n gweithio'n ddygn hefo'r *Dinesydd* o ddyddiau ei sefydlu yn 1973 ymlaen gan ddod yn Olygydd arno dros gyfnod o flynyddoedd. Bu ei chyfraniad yn ddim llai na syfrdanol.

Rhaid sôn yn neilltuol am ddwy gymdeithas a fu'n agos iawn at ei chalon. Y gyntaf ydi Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Bu'n aelod selog a brwdfrydig. Ceisiodd a llwyddodd i hybu canu gwerin. Bu'n darlithio ar y pwnc sawl tro; yn aelod o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas am flynyddoedd, yn Is-Gadeirydd a Chadeirydd arni.

At hynny, pan aeth i'r Wladfa mi gasglodd alawon gwerin a chaneuon poblogaidd Cymraeg yno. Casglodd lawer ohonyn nhw o ganu Mrs. Macdonald (mam Elvey, sydd yma heddiw) ac mi gyhoeddwyd rhai o'r rheini yn *Canu Gwerin*, cylchgrawn y Gymdeithas Alawon Gwerin.

Mae hyn yn ein harwain ni at yr ail Gymdeithas - Gymdeithas Cymry Ariannin. Bu Shân yn Ysgrifenyddes iddi o 1979 ymlaen ac aeth ymhell tu hwnt i gyflawni dyletswyddau ffurfiol Ysgrifenyddes ar ei rhan. Enghraifft dda o hynny oedd ymweliad Côr Esquel â Chymru llynedd. Roedd o leiaf 30 o aelodau yn y Côr, ynghyd â rhai perthnasau cefnogol, ond doedd hi ddim yn ddigon gan Shân roi croeso ffurfiol iddyn nhw mewn neuadd. Na, roedd yn rhaid eu gwahodd nhw i'w fflat yn Llandaf a rhoi llond eu boliau o fwyd iddyn nhw. Mae brwdfrydedd felna yn rhyfeddol.

Mi aeth i'r Wladfa am y tro cyntaf yn 1975, wedyn yn 1979, yn 1981 ac ar achlysuron eraill. Ysai am weld y Wladfa fel ag y mae hi, am ddarllen cynnyrch ei llenorion a gwybod am ei cherddoriaeth. Uwchben ei gwely gosododd soned gan Irma Hughes de Jones, ŵyres i Gwyneth Vaughan, a bardd da. Dyma'r soned ac roedd ei hergyd yn bwysig iawn i Shân. Ei phennawd -

I GYMRU:

Yn fy mreuddwydion, ganwaith crwydrais i
Dy fryniau a'th ddyffrynnoedd, 'mlaen ac ôl,
Clywais dy glychau'n canu dan y lli',
Cesglais dy flodau gwylltion hyd y ddôl;
Gwrandewais gân y fronfraith yn y coed,
Nodau y gwcw a glywais oddi draw,

Teimlais ddaear Cwm Rhondda dan fy nhraed,
Gwelais Eryri yn y niwl a'r glaw;
Yna daw'r deffro; minnau holi a wnaif
Ai hud y pellter a'th wna di mor dlws
Fel pan hiraethaf aeaf am yr haf,
Neu weled gardd drwy wydrau lliw y drws?
Pan ddelo'r dydd i ysgwyd llaw â thi
'Rwy'n erfyn, Gymru fach, na'm sioma i!

Deallodd Shân hynny i'r dim a doedd hi ddim am siomi unrhyw Wladfawr. Yn niwedd yr wythdegau a'r nawdegau daeth blynyddoedd llwydion i'w rhan. Ond penderfynodd ail-greu bywyd iddi ei hun. Yn 1992 cefais gais ganddi am lythyr cymeradwyaeth i Ganolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru gan ei bod yn ymgeisio am swydd yno. Rwyf wedi sgwennu ugeiniau o lythyrau cymeradwyaeth yn fy nydd ond 'fu 'na yr un erioed mor hawdd i'w sgwennu â hwnnw a mi roeddwn i'n dweud cant y cant o'r gwir ynddo fo. Bu Shân yn y swydd honno am bum mlynedd ac fe'i cyflawnodd yn anrhydeddus fel y gall A. J. Heward Rees, Pennaeth y Ganolfan honno sydd yma heddiw, dystio.

Yn ddiweddar roedd hi wedi ailddechrau ymddiddori mewn teledu, y tro hwn fel ymchwilydd. Yn 1994 mi ddaeth Cwmni Alan Thorgesson a Chwmni Ffilmiau'r Bont ynghyd i greu rhaglen am Leila Megane a chan fod Alan a hithau yn nabod ei gilydd yn dda (y ddau yn gydaelodau yng Nghapel y Crwys) ac yntau yn gwybod yn burion am ei phrofiad ar deledu a llwyfan, gofynnodd iddi a hoffai hi gydweithio ar baratoi'r rhaglen. Ymatebodd Shân yn frwd i'r cynnig, yn arbennig felly oherwydd ei bod hi ei hun wedi cyfarfod â Leila Megane. Digwyddai'r gantores enwog fod mewn cyngerdd lle'r oedd Shân yn unawdydd, ym Mhwllheli, ac ar y diwedd daeth i du ôl y llwyfan, ei chofleidio'n gynnes, a'i hannog i ddal ymlaen â'i chanu.

Yna, yn ddiweddar, mi glywais gan Hywel Morris ei fod o a Shân wedi bod yn cydweithio ar gyfer syniadau am rai rhaglenni teledu i'w hystyried gan S4C. Roedd dau o'r syniadau hynny yn ymwneud â'r Wladfa - un wedi ei gomisyynu'n frwd - dan y pennawd 'Nadolig y Paith'. A Shân ar glawr fel Cynhyrchydd ac Ymchwilydd i'r rhaglen honno.

Dyna hi, yn ferch â'i hynni a'i hegni yn byrlymu i'r diwedd. Ond, chwedl hithau, ychydig amser yn ôl wrth Mari: 'Does gan dy fam fawr o gyfle i neud y ffilm yna'.

Bum wythnos yn ôl bu Phyllis, John Roberts Williams a minnau yn ei gweld yn Sir Fôn. Roedd asgwrn y meingefn wedi breuo ond yr un hen Shân oedd hi yng nghanol ei phoen, hefo'r un cynhesrwydd, yr un cyfarchiad siriol a'r un awydd am sgwrs. Teimlem yn galonnog ddigon. Ychydig yn ddiweddarach

cawsom gerdyn Nadolig hefo dim ond un gair arno - ‘Shân’ - ond roedd yr un hen addurn arferol ar yr ‘S’ a’r ‘h’, yr hunan-fynegiant mor gadarn ag erioed. Ie, yr un hen Shân i’r diwedd. Felly y bydd hi byw yn ein meddyliau ni i gyd.

Ym meddyliau ei theulu yn arbennig. Mae’n cydymdeimlad ni â chi, deulu cyfan, yn ddwys i’r eithaf, a’r deyrnged uchaf y medrwch chi, y cenedlaethau nesaf, ei rhoi iddi ydi cadw ei chof yn fyw ac ir yn eich profiad. Bydd yn galondid ac yn ysbrydiaeth ichi.

Y FONESIG ENID PARRY, 1911-98

Huw Williams



Ym marwolaeth ddisymwth y Fonesig Enid Parry yn ei chartref ym Mangor ar 20 Ionawr eleni, collodd Cymru un o'i cherddorion mwyaf gweithgar ac amlochrog.

Yn weddw Syr Thomas Parry, cyn-lyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol a chyn-brifathro Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth, a fu farw ym 1985, fe'i ganed yng Nghaernarfon, ond symudodd y teulu i Gaerdydd ym 1914 pan benodwyd Mr O. Picton Davies, y tad, i weithio ar y *Western Mail* ac yn y Brifddinas y derbyniodd hithau ei holl addysg, gan raddio yno mewn Cymraeg a cherddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol.

Yn gerddores ddawnus - yn bianyddes ac yn gyfeilyddes fedrus - bu'n gysylltiedig dros y blynyddoedd â sawl sefydliad a mudiad cerddorol, gan wasanaethu'r genedl hefyd fel beirniad cerdd a darlledwraig.

Fel ei phriod, cyflawnodd gryn waith dros y blynyddoedd yn llunio cyfieithiadau a geiriau gwreiddiol ar gyfer rhai o gyngherddau a chystadlaethau cerddorol yr Eisteddfod Genedlaethol. Hi hefyd biau'r trosiad o'r llawlyfr hwylus *Cerddoriaeth yng Nghymru* (Idris Lewis), a gyhoeddwyd gan Wasg y Brython yng Nghyfres Pobun mor bell yn ôl â 1945.

Ond serch ei holl brysurdeb yn ystod y cyfnodau y bu'n byw ym Mangor ac yn Aberystwyth, mae'n ddiamau mai ym maes cyfansoddi - ei chariad cyntaf cynnar - ac fel trefnydd amryw o'n halawon gwerin brodorol y rhagorodd. Cyfansoddodd ganeuon gwreiddiol ar eiriau gan R. Williams Parry ac eraill, yn ogystal ag amryw o garolau ar gyfer Detholiad Blynyddol Undeb Noddwyr Alawon Cenedlaethol Cymru, a mynegiant o'i diddordeb dwfn

yn y delyn yw'r gweithiau a luniodd ar gyfer yr offeryn hwnnw, megis 'Darn i'r delyn' a 'Prelwd i'r delyn' a gyhoeddwyd gan Gwmni Snell, a 'Castell Caerdydd' a 'Rondo' a gyhoeddwyd gan Wasg y Brifysgol.

Trwy gydol ei hoes, ymhyfyrdodd yn ein halawon gwerin, ac fe'i clywais yn dweud fwy nag unwaith mai'r ffordd orau i ddarganfod nodweddion cerddorol unrhyw genedl yw astudio ei chanu gwerin. Trefnodd lawer o'r alawon ar gyfer llais a phiano; cyhoeddwyd rhai ohonynt gan dri neu bedwar o'r prif gwmnïau, ac fe erys ei chasgliad *Wyth Gân Werin* (Hughes a'i Fab 1949) yn gyfrol safonol a defnyddiol ei chynnwys.

Gwraig hynaws ei natur a hynod o ddiymhongar - ond annibynnol ei barn - oedd y Fonesig Enid Parry. Fe'i cofir gan y rhai a gafodd y ffrind o gydweithio â hi fel un o brif gymwynaswyr y Gymdeithas Alawon Gwerin, ac fel un hefyd a gyfrannodd yn hael i dwf a datblygiad y Gymdeithas, gan wasanaethu fel un o'r Is-Lywyddion, fel cyfrannwr i'r Cylchgrawn, ac fel un o ddarlithwyr y Cwrs Preswyl.

Braint oedd cael adnabod gwraig a fu mor deyrngar â'r Fonesig Enid Parry i'r pethau gorau ym mywyd ein cenedl, a hefyd i'w harddel fel un o gyfeillion gorau'r teulu.

JACOB MORGAN, Cefneithin

Hywel Teifi Edwards

Ar 21 Mawrth 1998 bu farw Jacob Morgan, 'Ja' i'w ffrindiau, a ffarweliwyd ag ef yn Amlosgfa Treforus ar 26 Mawrth mewn angladd cwbwl breifat. Ni wn faint oedd ei oedran ac nid yw o bwys gennyf. Roedd rhywbeth ynglŷn â 'Ja' a oedd tu hwnt i gyrraedd y cloc.

Fe ddaeth i'r dosbarth y bŵm yn ei gynnal am flynyddoedd yn Nre-fach, Cwm Gwendraeth gyda Dai Culpitt a Wil Rees, y tri ohonynt yn fois Cefneithin er fod 'Ja' o'r farn ei fod yn nes at y byd mawr na Dai a Wil am ei fod yn byw wrth ymyl y briffordd, wyneb yn wyneb â'r Garreg Holli ei hun.

Ni ddywedai fawr ddim yn y dosbarth; bu'n hir yn ildio i berswâd Dai a Wil ond wedi dod unwaith fe barhaodd i ddod. Yn syml, fe gafodd fodd i fyw. Trwy'r dosbarth cafodd ddod i gyrsiau preswyl yn y Dyffryn ar gyrion Caerdydd ac i 'Greggers' ar gyrion y Drenwydd. Ni chafodd uchel fodau'r Raj yn Simla amgenach nefoedd nag a gafodd 'Ja' yng Ngregynog ac wrth edrych nôl dros chwarter canrif o addysg oedolion ac atgofioni, does dim sy'n rhoi mwy o bleser i mi na chofio'r nefoedd fach a oedd i rai fel 'Ja' a Wil Howells, Cwmllynfell yng Ngregynog.

Fe'u gwelaf ac fe'u clywaf o hyd yn diddanu'r llys yn seler yr hen blasty, Wil y tu ôl i'r bar yn boddi sensoriaeth ddirwestol y ddwy Miss Davies mewn cleber a pheints, a 'Ja' yn canu alaw werin ar ôl alaw werin heb fethu pennill a'i berlewyg yr un pa un ai dathlu dihangfa'r Cowboi a fynnai'i grogi ar bren gwsberis yr oedd, neu drengi gyda'r eneth gadd ei gwrthod. Yr hen 'Ja' rhadlon, di-lol, parod ac aml ei gân. Ni fyddwn yn synnu dim pe ddi ei ysbryd atom yn y seler yng Ngregynog pan ddaw'r cwmni ynghyd yno eto, ac o gofio'i ddireidi synnw'n i ddim mai 'Cân yr Ysbrydion' fyddai'r dewis cyntaf wrth ymateb yn ôl ei arfer i'r hen gymell - 'Beth am gân Ja?' Fel alaw werin o ddyn y byddaf yn meddwl amdano mwyach. Cafodd flas anghyffredin ar gyfarfodydd y Gymdeithas ac yr oedd cwmni pererinion Dafydd Dafis yng Nghymdeithas Edward Lhuyd hefyd wrth ei fodd. Carodd dir a daear Cymru fel y carodd alawon ei phobl; cafodd hwyl ar ymddiwyllo ac roedd ei gydnabod yn teimlo'n well o gael bod yn swm ei ddifyrrwch a'i ddiddanwch. Rwy'n falch fy mod i wedi cael treulio cynifer o oriau yng nghwmni rhai fel 'Ja' ac rwy'n hyderu ei fod yn rhodio rhywle yn y gwynfyd-

Lle chwyth atgofus dangnefeddus wynt
Hen gerddi gwesty'r ddaear garodd gynt.

MYNEGAI I GYFROLAU 11 - 20

(INDEX TO VOLUMES 11 - 20)

1.DYDDIADAU CYHOEDDI / PUBLICATION DATES

11/1988 12/1989 13/1990 14/1991 15/1992 16/1993 17/1994 18/1995
19/1996 20/1997

2.TEITLAU CANEUON A CHEINCIAU / TITLES OF SONGS AND TUNES

	cyf.	tud.
A glywsoch chwi rioed	19	42
Agoriad y melinydd	11	45
Amser gwell i ddôd	19	43
Ar gyfer heddiw'r bore	16	44
Baled y byrddau	15	37
Bellisle March	11	49
Betty Brown	11	50
Ble bydda'i mhen can mlynedd	13	50
Blodau'r cwm	19	79
Blodeu yr eithin	12	41
Bu farw'r cathod	16	43
Cân amser	13	49
Cân can mlynedd	13	49
Can mlynedd i 'nawr	14	6
Cân newydd	13	38
Cân y ceffyl du	19	45
Cân y melinydd	19	79
Cân yr alltud	19	80
Cân yr hen lanc	12	36
Captain Thompson	15	43
Cerdd Morgan Jones	19	40
Charity Mistress	11	43

Clychau Rhiwabon	11	51
Crimson velvet	11	53
Cwlwm Foukun	17	27
Cyfri'r geifr	19	43
Dadl dau	17	20
Danfoned imi afal	15	42
	16	43
Deuwch addolwn	18	47
Dewch yn nes holl ieuenctyd mwynion	19	31
Difyrrwch gwŷr Caernarfon	11	54
Difyrrwch gwŷr y Gogledd	11	41
Diniweidrwydd	11	47
Distyll y don	19	78
Dorcas	15	57
Duw gadwo'r Brenin	12	7
Dydd Llun y bore	12	8
Ddaw hi ddim	11	7
Fe ddwedai'r hen ddyn wrth ei ferch	14	51
Fi glwas sŵn a rwb-dwb	17	29
First of May	13	88
Fy nghariad	13	50
Fy meddwl a fy malais	20	43
Ffair y Waun	13	48
Ffarwél gwŷr Aberffraw	12	10
Ffarwél i dref y Bala lon	19	37
Ffarwél Ned Puw	11	31
Ffelena	11	48
Gadael tir	12	11, 12
	15	54
Galar gwŷr Ffrainc	12	21
Greece and Troy	12	14
Grisial ground	12	19
Gwêl yr adeilad	11	34
Haf a chynhaeaf	19	44
Hedydd bach ben borau	19	38
Hen Ddarby	11	45
Hir oes i Fair	12	17

Hiraeth	19	79
Hiraeth y Cymro am ei wlad	13	49
Hyfrydwch y Brenin Siôr	12	18
I Edward Sirc	13	36
Iawn, iawn, hynod iawn	13	49
Joanna	14	10
Lili lon	19	37
Lisa Dal-y-sarn	13	50
Lisa lân	11	62
Lwlibei	19	38
Lliw gwyn rhosyn yr haf	13	44, 45
	19	37, 38, 78
Mae gŵr ym Mynydd Nantar	14	36
Malldod Dolgellau	12	15
Mari lwyd	19	80
Meibion dewrion Cymru	11	61
Mentra Gwen	11	39
Mwynen merch	19	78
O dyna chi wel ta'n wir	13	48
Pa bryd y deui eto?	19	78
Palestina	14	8
Peggy Ramsey	17	19
Petrisen	19	44
Pigransi	17	19
Pry bach bach	19	40
Rowlands	14	4
Rhif wyth	19	26
Rhywbeth arall i'w wneuthur	12	16
St Denio	14	10
Seren Bethlehem	15	35
Suo-gân	19	80

Susanna	12	5
Sybylltir	12	20
The Glamorgan plough boy's song	14	34
The hempdresser	17	19
The sinner's dream	15	58
The truth sent from above	15	57
Three things I cannot relish	14	37
Trymder	11	38
Un rhyfedd yw Shon wedi meddwi	13	51
Wil Hopcyn y bardd	13	49
Y blotyn du	19	40
Y 'deryn du sy 'mrig y goeden	15	54
Y ddafad benddu	15	53
Y fedle fawr	11	37
Y ferch o Landaf	13	49
Y gneuen goeg	19	41
Y gog lwydlas	19	39
Y gwŷdd	19	78
Y tri gelach	19	37
Ym Mhont-y-pridd mae 'nghariad	19	77
Ymadawiad y Brenin	11	36
Yn iach lawenydd	19	79
Yr eneth glaf	20	26
Yr Hen Ganfed	18	47
Yr hen lanc o Lŷn	15	39

3. LLINELLAU CYNTAF CANEUON, PENILLION FIRST LINES OF SONGS, STANZAS

A felfat jacit an' a ffwsjan cot!	17	10
A welsoch chi, wrth grwydro 'mhell	15	52
A while through pain or pleasure	19	86
Ac hosan ddu coes un ddel	19	64
Aeth glaslanc unwaith ar ei hynt	11	61
Aeth Shon ryw ddiwarnod	13	51
Am wreigan wych hynod, fy yn cadw Tŷ Diod	20	19

Ar fedd Llywelyn 'eb un maen	17	10
Ar y ffordd wrth fyn'd i Lunden	19	68
Arhosaf fi yng Nghribyn i gadw geir a moch	16	22
<i>Ash</i> yw onen, <i>oak</i> yw derwen	19	62
Bachan baech o Ddywlsh	17	41
<i>Bitch</i> ydyw gast a <i>dog</i> ydyw ci	19	62
Bryd cawn ni'n ddau briodi	19	38
Bum yn byw yn gynnil, gynnil	19	71
Buwch goch y genfan	17	14
Bwch y Gwynt o'r Apar Fawr	17	15
Cadd Pryse o Bont y Pandy	14	34
Caf finnau ddillad newydd	19	72
Cant o deirw corndwb	17	33, 38-40
Ceffyl batwn, ceffyl tena	17	15
Ci modryb Ann Ty'n Coed	19	70
Clywch adrodd mawr gariad	18	32
Cofio rhodio'r glannau	15	68
Crasdant, cowirdant fal cynt	13	35
Croen y ddafad felan	11	23
Croes, croes ar y llawr	19	49
Cwyd meistr o'th ffirgrin grin	19	64
Cydunwch Brydyddion	16	41
Cyhoeddwyd i'r bugeiliaid	12	38
Chwaith na Modryb Alice	19	69
Chwirydd am eu brodyr	16	19
Dafi Siencyn Morgan	19	71
Danfoned imi afal	15	42
Dau geiliog yr hwyiaid	13	12
Deffro, Awen, dere i'r amlwg	15	24
Deuwch addolwn, a chyd-ganwn	18	47
Deuwch Forgannwg oll ar unwaith	15	20
Dewch holl Feirddion, dynion doniol	15	16
Dime dime hen blant bach	19	38
Do, mi welais innau wennol	19	68
Dol las lydan	19	63
Dros euog ddyn fe'i lladdwyd	18	41
Dwy ŵydd radlon	19	62

Dydd da fo i ti, fy seren olau	13	38
	16	16
Dydd da fo i'r Eglwys	20	17
Ei ben yr ail ddiwrnod	16	16
Eira a mynudd rhudd ar ffo	17	27
Eisteddaf heno ar y garreg	19	71
'En Fenyw Faech Cydweli	17	13
Er huno ohonot, y cyfaill gorhoffus	16	34
Fe ddwedai'r hen ddyn wrth ei ferch	14	51
Fe gafwyd un boreu	12	41
Fe ganodd yr angylion	16	34
Fe gwmpodd Mari Rhydwb	17	38
Fel a'r fu, fel a'r fel	19	64
Fel yr oeddwn i ar foreuddydd	20	43
Fenni Fenni	17	14
Fenyw fwyn gwrando gŵyn	19	37
Fi fuo'n caru dwy'r un enw	17	10
Fi glwas sŵn a rwb-dwb	17	28
Fi gwnas acha bora	19	11, 12
Fi welas ferch eleni	19	16
Fy newis bethau er yn wâs	14	38
Ffarwél i dre Caernarfon	13	19
Ffarwél i dref y Bala lon	19	37
Ffarwél i Fegi'r fwldog	11	19
Ffarwél i'r hen Feillionan	11	22
Guto Nyth Brân, mi glywais haeru	15	6
Gwelir digon o redegwyr	15	13
Gwnawd mwynwych lonwych englynion	20	13
Gwrandewch, Omeriaid	16	39
Gyru, gyru i Gasnewydd	19	65
Haf a chynhaeaf eto	19	44
Hai'r ceffyl bach i'r ffair	19	60
Hen glochydd Llanbeblig	20	22
Hen wraig bach, den den	19	63
Hogia Na(n)mor a'u cariada	11	22

I drink to the ox	14	32
Ifan baech / Mari faech a finna	17	13
Joseph Baxter is my name	11	7
Lodes ei mam, a lodes ei thad	19	52
Llawer gwaith y buoi'n ffôl	15	63
Llidiart newydd ar gae ceirch	19	71
Mab a'n rhodded	15	47
Mae bwch yn nhroed yr Wyddfa	19	73
Mae gan Farged fwyn ferch Ifan	20	15
Mae gan i darw penwyn	19	70
Mae gen i hen iar dwrci	19	68
Mae gŵr ym Mynydd Nantar	14	36
Mae llawer iawn o fynd a dod	19	42
Mae morwyn yn y Wernas	11	20
Mae nhw'n d'weudyd na chai fawr	17	20
Mae pawb yn chwerthin am fy mhen	12	36
Mae yma basda a aelod march	17	19
Mae'r Gyfraith hon yn rhannu gŵr	16	18
Mamgu fach a'r capan coch	19	72
Megis tarth neu niwl y borau	16	18
Mi adwaen lanc ifanc	11	20
Mi ddeuda i chi hanes	15	39
Mi geso'm gwawdd i ginio	19	18, 19
Mi gleddais hen gym'doges	19	62
Mi glywais drwst neu rhyw-rwb	17	30
Mi glywais dd'wedyd fod y wennol	19	68
Mi welais ddwy gabetsen	19	61
Mi welais farch mewn ffrwyn-grwb	17	37
Mi welais grythor droed glwb	17,	39, 40
Mi welais i be 'na welodd pawb	19	61
Mi welais lo mewn gwaelgwb	17	39,40
Mi welais merch liw'r lili	19	17
Mi welas bili pala	19	61
Mi wela's Deirw Corn-dwb	17	39
Mi weles flwch gan Gwenno	19	87
Modryb y fawd	19	61
Morgan Jones o'r Dolau Gwynion	19	40

My mind being much inclinèd	15	43
Myn'd i'r ardd i dori pwysi	19	70
Ni waeth genni am y byd	19	38
Ni weithiaf ddim mewn tafarn	16	22
Nid oedd yn bod am gwrw a bîr	20	23
Nid oes gwiw i'r Saeson bellach	15	28
O deued pob Cristion, cewch gennym gysuron	18	38
O dewch yn dwr y Cymry llon	19	41
O ewch oddiwrth y ffenest	19	67
O f'anwylyd pryd cawn ni briodi?	13	44
O gwcw, o gwcw b'le buost ti cyd?	19	69
O! na allwn beidio porthi	15	63
Oes, mae yma win i werth	19	66
One night in slumber, in sleep I lay	15	58
Os wyt ti'n myn'd i'm troi i heibio	13	45
Over the water and over the lea	19	66
Paham y mae'n arw	19	62
Pan ddaw telyn Harri	20	14
Pan oeddwn ar frig noswaith	19	85
Pan o'wn i'n myn'd t'a'r ysgol	14	36
Pan own i'n rhodio mynwent eglwys	13	26
Pe bawn i yn perchen synnwyr Solomon	13	21
Pe cant o deirw cyrn-dwb	17	31
Pin aiff Syr Wyl i'r bedd	17	13
Pob enaid sy'n credu	18	29
"Pwy yrrwn ni i Gymru?"	15	37
Roedd bwch yn ymyl Merthyr	19	61
Roedd hon yn Felin wisgi	14	38
Rôl imi gyrraedd deugain	13	18, 27
Rwy'n awr yn gweld yn eglur	17	36
Rwy'n awr yn un-ar-ugain oed	18	52, 55, 56
Rhod y felin falu a rhod y felin ban	17	36
Rhodio yr oeddwn a'm calon yn brudd	19	39
Rhowch y crochan ar y tân	11	19
Rhyw brynhawn hyfryd iawn	13	48

Si-hei-li-lwli'r babi	19	67
Sion y gof a'i gaseg	19	62
Sirc feddwisiad grwydrad garwrdran	13	36
So God himself is weaving	19	86
Tali, tali, tali	19	49
Tarw corniog tori cynau	19	61
There was a London Gentlewoman	17	19
This is the truth sent from above	15	57
Three things I cannot relish	14	37
Trafaelais y byd, ei hyd a'i led	13	19
Tri pheth ni saif heb siglo	19	10, 11
Tri pheth ni saif yn llonydd	19	13, 14
Tri pheth wy'n wel'd yn lled-chwith	19	14
Turn O Sakizeh to the right	14	33
Twas within a mile of <i>Edinborough town</i>	17	23
Un dau tri mi rho nhw'i lawr yn ffri	19	63
Unwaith hwyliais ar y cefnfor	15	33, 35
Wel, dyma gysur mawr i'r gwan	18	40
Wel ffrindia rhoddwn glod	19	43
Wrth brynu a gwerthu ebol blwydd	18	53, 55
Wrth rodio ar ddiwarnod		13
48		
Wrth weled llew mewn gwael-gwb	17	30
Y cyntaf dydd o'r gwylie	19	44
Y Dafarn ydi demel belial	20	17
Y 'deryn du sy 'mrig y goeden	15	5
Y mae'r haf yn hir yn dyfod	20	26
Y melinydd ddygodd wenith	19	37
Y pumed dydd ar hugain	18	33
Yng ngwryon Top y Rhos	19	41
Ym min y dydd ŵyl Ifan	15	53
Ymhell tu hwnt i Frechfa draw	16	26
Yn rhodio yr oeddwn a'm calon yn brudd	19	39
Yn tynu cydyn o wallt y talcen	19	60
Yr eiddew a'r gelynnen	14	43
Yr eos a'r glân hedydd	13	24

4. ERTHYGLAU / ARTICLES

DAVIES, Alun: Hen garolau traddodiadol y Cymry	18	27
EVANS, Meredydd: Bugeilio'r gwenith gwyn	15	62
Cainc ar gyfer halsingod	18	45
Cerdd 'Yr eneth glaf'	20	26
Esbonio gweddillion	20	43
Rhigymau plant	19	45
EVANS, T. C.: Ploughing with oxen in Glamorgan 'Cadrawd'	14	30
GEORGE, Siwsann: Ar lafar gwlad	17	3
GRIFFITHS, Rhidian: Alawon gwerin yn Eisteddfodau Aberystwyth	15	59
Alawon W. Gilbert Williams	15	52
Ar gyfer heddiw'r bore	16	44
"Blodeu yr eithin"	12	40
Danfoned imi afal	15	42
	16	43
"Ddaw hi ddim"	11	5
John Lloyd Williams (1854-1945)	18	3
Sain y delyn	15	50
Teulu Dorcas	15	56
W. S. Gwynn Williams (1896-1978)	19	3
HUWS, Daniel: Baledwyr Aberdâr	13	46
IFANS, Dafydd: Carol blygain "Bardd Treflys"	16	32
"Impossible Paravoloxen"	18	49
JAMES, Allan: Tribannau gwerin Morgannwg	19	6
JAMES, E. Wyn: Baledi i'r 'Cyw Cloff'	15	3
Byd gwyn fydd byd a gano	19	75
Hen garol o'r Gororau	14	40
Hwbwb yng nghymoedd Taf a Rhondda	17	28

JENKINS, Dafydd: "Y Fwyalchen" ac "O fryniau Caersalem"	16	28
JONES, Dewi: Baledwyr, telynorion a beirdd gwerin Arfon	20	13
JONES, Hefin: Cân newydd Bardd y Gwagedd	13	38
Testunau baledi'r Bardd Gwagedd	16	15
JONES, Meinir Angharad: J. Ffos Davies	16	20
JONES, Tecwyn Vaughan: Y byw a'r segur yn <i>repertoires</i> cynheiliaid canu gwerin	17	42
JONES, Tegwyn: Bardd Treflys a'r Palm Oil	17	48
Rhagor o redwyr	16	38
KINNEY, Phyllis: Alaw'r 'Gwenith gwyn'	15	63
Contraboncin, Pigransi	17	18
How Welsh is Welsh folk music?	16	3
Migildi, magildi	15	64
Songs of R. E. Vaughan Roberts	19	35
The tunes of the Welsh Christmas carols	11	28
	12	5
LEY, Rachel: Pencerddes gerddgar	19	22
LLOYD, D. Myrddin Y Brawd Fadawg ap Gwallter a'i gân i'r geni	15	45
MILES, Bethan: 'Pwt ar frys' neu 'Ffarwél y crythor'	13	35
MORGAN, Gerald: Baledi Dyffryn Conwy	20	2
MORRIS, John: Y 'Canorion' a'r casglu cynnar	13	5
MORRIS, Megan: Twrio i hanes teuluol	15	30
PARRY, Enid: Atgofion am gasglwyr alawon gwerin Cymru	13	29
PARRY, Gruffudd: Dwy faled	15	37

ROBERTS, Bobi Morus: Dwy gân	12	36
ROBERTS-YOUNG, Dilwyn: Myfyrdod ar ganu blues	18	59
SAER, D. Roy: Y canu llofft stabal ym Mhen Llŷn	11	12
THOMAS, Ceinwen H: Cerddoriaeth werin Nantgarw	17	6
THOMAS, Wyn: Mary Davies - <i>grande dame</i> yr alaw werin yng Nghymru	20	28
TOMOS, Elise: Gwyliau gwerin 1988 [WILLIAMS]	12	31
WILLIAMS, Elise: Robin Bowen yn ateb	14	47
WILLIAMS, Huw: Llinach 'Joanna'	14	5
WILLIAMS, J. Lloyd: The history of the Welsh Folk Song Society	18	9
Yr hwyl Gymreig	14	15
Y GOLOFN YMCHWIL	20	46

5. ADOLYGIADAU / REVIEWS

Caneuon llafar gwlad, cyf. 2 / D. Roy Saer (Rhidian Griffiths)	18	65
Cofio cantorion: the Welsh Imperial Singers/ Alun Trevor (Rhidian Griffiths)	14	54
Dic Dywyll y baledwr / Hefin Jones (Rhidian Griffiths)	18	65
Hela'r draenog [record] / Robin Huw Bowen (Rhidian Griffiths)	17	53
Mabsant: casgliad o hoff ganeuon gwerin Cymru	14	54

(Rhidian Griffiths)

Y Delyn (Cymdeithas Gymreig y Delyn, Gogledd America) (Rhidian Griffiths)	14	54
---	----	----

Yr Eneth ddisglair annwyl: Morfydd Owen (1891-1918) Rhian Davies (Dafydd Ifans)	17	51
--	----	----

6. TEYRNGEDAU / OBITUARIES

DAVIES, Alun (D. Roy Saer)	11	59
DAVIES, Arnold V. (Rhidian Griffiths)	15	66
EVANS, Mali (Rhidian Griffiths)	18	66
JONES, Megan (Rhidian Griffiths)	16	45
MORGAN-JONES, Gwladys (Menna Williams a Megan Morgan-Jones)	15	66
OWEN, Emrys Bennett (D. Roy Saer)	11	58
PARRY-WILLIAMS, Y Fonesig Amy (D. Roy Saer)	11	58
REES, Myra (Rhidian Griffiths)	17	55
TIBBOTT, Gwladys Megan (Rhidian Griffiths)	15	67
WILLIAMS, Eunice Bryn (Rhidian Griffiths)	14	53
WILLIAMS, Siân (Robin Gwyndaf)	15	67

Teulu, Bro a Thelyn

Portread o Ganwr Gwerin a Chynheilydd

Traddodiad: Emrys Jones, Llangwm

gan Robin Gwyndaf

‘Fyddden ni’n canu wrth droi.... Oedden ni’n canu drwy’r dydd’. Dyna un o sylwadau cofiadwy Emrys Jones yn y gyfrol hon wrth sôn am ei waith ar fferm Ystrad Fawr, Llangwm, slawer dydd, yng nghwmni’r meibion, Ifor ac Oliver Hughes. Y mae’r gyfrol yn offrrwm diolch i gymwynaswr arbennig iawn am ei gyfraniad nodedig fel canwr gwerin a datgeinydd, trefnydd a hyfforddwr - cymwynas gŵr a dreuliodd oes lawn i’r ymylon yn gofalu o’i wirfodd gyda chariad a boddhad am dreftadaeth deg ei hynafiaid. Ynddi cawn ddarlun o gyfraniad unigryw Emrys Jones fel cynheilydd traddodiad sy’n perthyn i deulu eithriadol o gerddorol: ‘Teulu’r Seiri Cochion’, a’i dad, David Jones, Pen y Bont, a John Owen Jones (Owen Bryngwyn), y bariton, ymhlith yr aelodau. Aelod arall oedd Jane, ‘Jinnie Canol Llan’, chwaer ieuengaf ei daid. Ac meddai Emrys amdani hi: ‘O’n nhw’n dweud bod copi honno’n ddu - oedd hi’n practisio “Cytgan yr Haleliwia” wrth flacledio’r grât’. Yn yr un modd, y mae’r gyfrol yn bortread o gynheilydd traddodiad y diwylliant cyfoethog yn Uwchaled a’r cyffiniau, ddoe a heddiw, yn arbennig y traddodiad cerdd dant a cherdd dafod, canu cynulleidfaol a chanu corawl, eisteddfod a chyfarfod cystadleuol. Cyfeirir hefyd at bwysigrwydd athrawon a chyfeillion cerddgar Emrys Jones ym mro ei febyd yng Nghwm Eithin, fel ym Mro Hiraethog a Phenllyn. Cyhoeddwyd y gyfrol hon (220 tud.) gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru ar achlysur traddodi Darlith Goffa y Fonesig Amy Parry-Williams yn y Babel Lân, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Meirion a’r Cyffiniau, Y Bala, 2 Awst 1997. Y mae ynddi 70 o luniau diddorol a’i phris yw £13.95.

CYHOEDDIADAU

Ancient National Airs of Gwent and Morganwg

Maria Jane Williams, gol. Daniel Huws £8.50

Hen Alawon (carolau a cherddi)

Casgliad John Owen, Dwyran

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £5.50

Canu'r Cymry

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £3.50

Canu'r Cymry II

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £3.50

Caneuon Gwerin i Blant

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.95

Lleisiau'r Werin

£1.50

Lleisiau'r Werin 2, 3

gol. Rhidian Griffiths £2.50, £2.75

Darlithiau Coffa Amy Parry-Williams

1990 - *Canu Jim Cro*, Meredydd Evans £1.00

1991 - *Ffiniau*, Rhidian Griffiths £1.00

1992 - *Canu at iws*, D. Roy Saer £1.50

1993 - *Caneuon llafar gwlad ac*

Iolo a'i fath, Daniel Huws £1.50

1995 - *O lafar i lyfr*, Phyllis Kinney £1.50

1996 - *Canu Ffolant*, Rhiannon Ifans £3.00

1997 - *Teulu, bro a thelyn*, Robin Gwyndaf £13.95

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.